
Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE

Tachwedd 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE

Tachwedd 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ........ 7**

**1. Cyflwyniad ........ 9**

Cefndir ........ 9

Casglu tystiolaeth ........ 9

**2. Pwysigrwydd llywodraethiant y DU a'r UE ........ 10**

Pŵer cyrff llywodraethu y DU a'r UE i wneud penderfyniadau mewn meysydd datganoledig ........ 10

Cyfyngiadau posibl ........ 11

Mae 'normaleiddio' cysylltiadau yn gyfle da i ystyried effeithiolrwydd y strwythurau sydd ar waith ........ 12

Ein barn ni ........ 13

**3. Rolau yn llywodraethiant y DU a'r UE ........ 15**

Rolau presennol a gwella dylanwad ........ 15

Rôl Cymru yn y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ........ 15

Y diffyg dyfnder tiriogaethol yn y cytundebau rhwng y DU a'r UE ........ 15

Rôl y llywodraethau datganoledig ........ 16

Rôl sefydliadau is-wladwriaeth ........ 18

Gwelliannau posibl ........ 19

Ein barn ni ........ 19

Cysylltiadau rhynglywodraethol ar faterion rhwng y DU a'r UE ........ 21

Ein barn ni ........ 25

**4. Cyfeiriad strategol ........ 28**

Strategaethau a blaenoriaethau ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. 28

Ein barn ni ..... 31

**5. Tryloywder ..... 34**

Tryloywder strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE ..... 34

Ein barn ni ..... 35

**6. Ymgysylltu ..... 38**

Cyfleoedd i'r Senedd ..... 38

Esblygiad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol rhwng y DU a'r UE ..... 38

Ymgysylltu â sefydliadau'r UE ..... 40

Ein barn ni ..... 42

Cyfleoedd i gymdeithas sifil ..... 42

Gweithrediad Grwpiau Cynghori Domestig y DU ..... 43

Gwersi o weithrediad Grwpiau Cynghori Domestig yr UE ..... 44

Cydweithrediad cymdeithas sifil rhwng y DU a'r UE ..... 45

Gweithrediad y Fforwm Cymdeithas Sifil ..... 46

Ymgysylltu â strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE ..... 46

Gwersi o Ogledd Iwerddon ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ..... 47

Ein barn ni ..... 47

**7. Ymgysylltu yn y dyfodol ..... 51**

Gweithredu cytundebau rhwng y DU a'r UE ..... 51

Adolygiad gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ..... 52

Ein barn ni ..... 53

**Atodiad 1: Ffeithluniau ..... 54**

Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ..... 54

Y Cytundeb Ymadael ..... 55

**Atodiad 2: Cylch gwaith** ........................................................................ **56**

**Atodiad 3: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar** ...................................... **58**

**Atodiad 4: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..................................... **59**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod o bwys sylweddol i ddinasyddion yng Nghymru. Mae'n llywio cymaint o'n bywydau bob dydd: y gallu i gwmnïau yng Nghymru fasnachu, rheoli ein hamgylchedd a'n pysgodfeydd, a'n gallu i deithio, gweithio ac astudio. Mae hefyd yn adlewyrchu ein gallu i gydweithredu ar ymchwil a chydgysylltu diogelwch iechyd â'n cymdogion rhyngwladol agosaf.

Mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am lawer o'r meysydd yn y trefniadau sy'n llywodraethu perthynas newydd y DU â'r UE. Ni yng Nghymru sy'n gyfrifol am lawer o'r gwaith i'w gweithredu.

Gadawodd y DU yr UE bron pedair blynedd yn ôl. Mae'r cyfnod ers hynny wedi bod yn gyfnod o newid sydyn yn cynnwys negodi, addasu a dygymod parhaus.

Felly, mae'n bosibl nad yw'n syndod bod y strwythurau sydd wedi dod i'r amlwg i reoli'r berthynas newydd hon yn gymhleth ac yn esblygu o hyd. Ymhellach, nid yw tryloywder y strwythurau hyn, eu hatebolrwydd i seneddau ac ymgysylltiad priodol â'r cenhedloedd datganoledig, rhanbarthau'r UE, llywodraethau lleol a chymdeithas sifil wedi cael digon o sylw.

Ceisiodd ein hymchwiliad ystyried y materion hyn a mynd i'r afael â hwy, ac rydym yn ddiolchgar i'r holl bobl a gymerodd amser i gyfrannu trwy roi tystiolaeth am eu barn a'u profiadau, gan gynnwys yn ystod ein hymweliad â Brwsel.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau ond, wrth wneud hynny, nid yw'n mynd i fanylder ynghylch yr hyn y dylai'r berthynas fod rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Yn hytrach, mae'n rhoi sylw i ystod o faterion allweddol, gan gynnwys:

- a yw Cymru a buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli a sut y gwneir hynny;
- pwy sy'n ymwneud â phenderfyniadau y mae'r DU yn eu gwneud ynghylch ei phartneriaeth â'r UE yn y dyfodol;

- sut rydym yn gwybod pa benderfyniadau sy'n cael eu gwneud a chan bwy, gan gynnwys yn ein meysydd cymhwysedd deddfwriaethol ni yma yn y Senedd;
- sut rydym yn dwyn llywodraethau a gweithrediaethau ar y ddwy ochr o'r berthynas i gyfrif.

Heb ddatrys y materion sylfaenol hyn, gall unrhyw berthynas yn y dyfodol—ni waeth am ei thelerau— fod yn llai ar sail gwybodaeth, yn llai effeithiol ac yn llai tebygol o lwyddo.

Mae'r ffaith bod Fframwaith Windsor wedi dod i ben wedi rhoi cyfle i gael saib a myfyrio ar sut y mae'r cytundebau hyn yn gweithio'n ymarferol, a sut y maent yn cael eu rheoli. Mae ein hadroddiad yn canfod y dylem achub ar y cyfle hwn a'r ewyllys da sydd wedi'i greu i ddatrys materion sydd wedi codi yn ystod blynyddoedd cynnar y berthynas.

Nid yw'r Pwyllgor ar ei ben ei hun yn ei drafodaethau. Mae pwyllgorau yn Senedd y DU a Senedd yr Alban oll wedi gwneud gwaith pwysig yn y maes hwn, yn ogystal â Senedd Ewrop, Pwyllgor y Rhanbarthau, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop a'r sefydliad cymdeithas sifil yn y DU a'r UE. Mae hyn yn dangos y budd cyffredin a'r awydd i barhau i ddatblygu a chydweithio i wella'r strwythurau sy'n llywodraethu ein perthynas.

Bwriedir i'n hadroddiad gyfrannu barn o Gymru i'r drafodaeth hon sy'n adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud. Rydym yn gobeithio bod ein hadroddiad yn gweithredu fel catalydd ar gyfer rhagor o drafodaeth ar sut y gellir gwella strwythurau ac atebolrwydd. Am y rheswm hwnnw, byddwn yn ceisio mynd ati i ymgysylltu â sefydliadau yng Nghymru, y DU a'r UE i fwrw ymlaen â'n hargymhellion.

Ar hyn o bryd, pan fo ansicrwydd ac ansefydlogrwydd rhyngwladol, ni fu erioed yn bwysicach sicrhau bod y berthynas barhaus rhwng y DU a'r UE yn gweithio i'n holl ddinasyddion.

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

**1.** Fel rhan o'i gylch gwaith, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ystyried effaith gyfansoddiadol materion allanol Cymru, gan gynnwys llywodraethu a gweithredu cytundebau rhwng y DU a'r UE.

**2.** Mae'r cytundebau rhwng y DU a'r UE yn sefydlu strwythurau llywodraethu newydd cymhleth ar gyfer rheoli cysylltiadau a chytundebau rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit. Wrth i'r strwythurau llywodraethu hyn ddechrau gweithredu'n ymarferol, mae problemau a heriau cyffredin wedi dod i'r amlwg i seneddau yn y DU sydd â'r dasg o graffu arnynt.

**3.** Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliad byr i strwythurau llywodraethu rhwng y DU a'r UE sy'n bodoli i weithredu'r Cytundeb Ymadael, y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad a chytundebau atodol dilynol (gweler Atodiad 1 am ffeithlun sy'n esbonio'r strwythurau hyn). Mae'r ymchwiliad yn adeiladu ar ganfyddiadau cynnar ar rôl a chynrychiolaeth Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn y berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit, fel yr amlinellwyd yng nghyflwyniad y Pwyllgor[1] i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ym mis Hydref 2022.

**4.** Mae cylch gwaith yr ymchwiliad wedi'i nodi yn Atodiad 2.

## Casglu tystiolaeth

**5.** Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid drwy dystiolaeth ysgrifenedig a sesiynau tystiolaeth lafar. Mae rhestr o'r dystiolaeth a gasglwyd wedi'i hamlinellu yn Atodiad 3 ac Atodiad 4.

**6.** Buom hefyd yn ymweld â Brwsel rhwng 5 a 7 Medi 2023 i gymryd tystiolaeth gan sefydliadau a rhanddeiliaid yr UE.[2]

[1] Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Tachwedd 2022 (cyhoeddwyd)
[2] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023

# 2. Pwysigrwydd llywodraethiant y DU a'r UE

**7.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn cyflwyno achos cymhellol ynghylch pam mae craffu gofalus ar lywodraethiant y DU a'r UE yn hanfodol, a pham y dylid ei ystyried yn flaenoriaeth i ddeddfwrfeydd.

## Pŵer cyrff llywodraethu y DU a'r UE i wneud penderfyniadau mewn meysydd datganoledig

**8.** Nodwyd y pŵer sylweddol sydd wedi'i ymgorffori mewn strwythurau llywodraethu ar y cyd rhwng y DU a'r UE i wneud penderfyniadau mewn meysydd datganoledig fel mater allweddol yn y dystiolaeth a gawsom.

**9.** Amlygodd yr Athro Lock bŵer Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd i wneud penderfyniadau 'unochrog' a allai newid telerau'r Cytundeb Ymadael yn sylweddol[3] a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu[4] heb unrhyw oruchwyliaeth na rheolaeth seneddol.[5]

**10.** Rhoddodd yr Athro Lock enghraifft o newidiadau sylweddol a wnaed i Brotocol Gogledd Iwerddon gan Fframwaith Windsor gydag ychydig iawn o graffu seneddol a chytundeb yn y DU a'r UE.[6]

**11.** Dywedodd Charles Whitmore wrthym, ar ôl Brexit, fod cydbwysedd pŵer ar faterion rhwng y DU a'r UE wedi'i drosglwyddo o ddeddfwrfeydd i weithredwyr, gan arwain at rôl lai i ddeddfwrfeydd ar faterion a fyddai wedi cael eu hystyried ganddynt yn flaenorol.

**12.** Dywedodd Charles Whitmore y canlynol:

> *"The UK's withdrawal from the EU has marked a notable shift in power away from legislatures towards executive function."*[7]

---

[3] Am fwy o wybodaeth, gweler Ymchwil y Senedd, Cymru a'r Cytundeb Ymadael â'r UE, Hydref 2022 ac Ymchwil y Senedd, Cymru a Fframwaith Windsor, Mai 2023
[4] Am fwy o wybodaeth, gweler Ymchwil y Senedd, Cymru a Chytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE, Mai 2023
[5] Yr Athro Lock, Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[6] Yr Athro Lock, Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[7] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)

**13.** Dadleuodd fod hyn yn cefnogi'r angen am graffu a goruchwyliaeth seneddol o gyfranogiad Llywodraeth Cymru yn y cysylltiadau rhynglywodraethol a strwythurau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[8]

**14.** Clywsom bryderon tebyg yn ystod ein cyfarfodydd â chydweithwyr o'r UE ym Mrwsel, lle dywedwyd wrthym fod natur y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn benodol yn golygu bod pŵer yn nwylo gweithrediaethau'r DU a'r UE gyda rôl gyfyngedig i seneddau yn y strwythurau llywodraethu.

## Cyfyngiadau posibl

**15.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn amlygu bod cytundebau rhwng y DU a'r UE yn cwmpasu meysydd sydd mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, neu sy'n effeithio'n sylweddol arnynt. Dywed yr Athro Lock y gellid gwneud penderfyniadau hefyd o fewn y strwythurau llywodraethu sy'n cyfyngu ar y defnydd o gymwyseddau datganoledig.[9]

**16.** Atgoffodd yr Athro Catherine Barnard ni y bydd datblygiadau polisi a deddfwriaethol yn yr UE yn parhau i gael effaith alldiriogaethol ar ddinasyddion a chwmnïau Cymru oherwydd pwysigrwydd marchnad yr UE i Gymru. Roedd yr Athro Barnard yn argymell y dylid craffu'n ofalus ar ddatblygiadau parhaus yn yr UE.[10]

**17.** Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i'r DU barhau i fonitro a llywio deddfwriaeth yr UE a allai effeithio ar fusnesau a sefydliadau'r DU, yn enwedig y rhai sydd y tu hwnt i gwmpas strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (y Cytundeb). Soniwyd am bwysigrwydd dilyn ffeiliau cyfreithiol a pholisïau drwy sefydliadau'r UE ac yn enwedig felly bwyllgorau Senedd Ewrop.[11]

[8] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[9] Yr Athro Lock, Tystiolaeth ysgrifenedig
[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (DCC) 19 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion [80]
[11] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023

## Mae 'normaleiddio' cysylltiadau yn gyfle da i ystyried effeithiolrwydd y strwythurau sydd ar waith

**18.** Nododd llawer o'r tystion ei bod yn ymddangos bod dod i gytundeb ar Fframwaith Windsor wedi arwain at 'normaleiddio' cysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

**19.** Bu Dr Lisa Whitten yn trafod arwyddion gobeithiol bod y berthynas rhwng y DU a'r UE yn dod yn fwy sefydlog.[12] Awgrymodd sawl tyst fod cyfnod o berthnasoedd mwy sefydlog yn gyfle i ystyried yn ofalus yr hyn y mae Cymru a'r DU ei eisiau o'r berthynas a sut y gellid gwella llywodraethu rhwng y DU a'r UE.

**20.** Wrth dynnu sylw at y pwynt hwn, dywedodd yr Athro Simon Usherwood y canlynol:

> *"…we're now at a point where it looks like the governance and institutional architecture of the relationship is starting to be accepted and settle down, and so we're now in a phase where there needs to be really active thought about how best to input Welsh priorities and preferences into that process. So, at a point where the London Government has maybe turned the page, or a page, I think there are lots of opportunities for the Senedd and for Wales more generally to be doing that."*[13]

**21.** Nododd yr Athro Barnard hefyd fod y berthynas wedi dod yn fwy diflas, a dywedodd bod hyn yn newyddion da.[14]

**22.** Yn ystod ein hymweliad â Brwsel, clywsom fod y berthynas rhwng y DU a'r UE wedi gwella ar ôl cytuno ar Fframwaith Windsor. Roedd dod i gytundeb ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Wasanaethau Ariannol rhwng y DU a'r UE hefyd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol er mwyn adfer ymddiriedaeth a normaleiddio'r berthynas.[15]

[12] Y Pwyllgor DCC, 26 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion [111]
[13] Y Pwyllgor DCC, 19 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion [7]
[14] Y Pwyllgor DCC, 19 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion [12]
[15] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Llywodraethiant y DU a'r EU: Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Medi 2023

**23.** Yn ei adroddiad ar weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, a'i gynnig ategol ar gyfer Penderfyniad gan Senedd Ewrop, mae Pwyllgor Senedd Ewrop ar Faterion Tramor a Masnach Ryngwladol yn nodi y sefydlodd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu fframwaith cydweithredol a ddylai fod yn sail i bartneriaeth gryf ac adeiladol yn y dyfodol.[16]

**24.** Clywsom ym Mrwsel bod rhai meysydd yn peri pryder o hyd i randdeiliaid yr UE, fel y nodwyd yn yr un adroddiad gan Senedd Ewrop, yn enwedig ar faterion sy'n ymwneud â dadreoleiddio a *Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023*. Fodd bynnag, mae parodrwydd ac awydd yn yr UE i barhau i gydweithredu â llywodraethau'r DU, mudiadau a sefydliadau cymdeithas sifil.[17]

## Ein barn ni

**25.** Mae'n amlwg bod y pwerau gwneud penderfyniadau sylweddol a roddwyd i weithredwyr y DU a'r UE gan gytundebau rhwng y DU a'r UE yn golygu bod angen datblygu systemau effeithiol ar gyfer goruchwylio seneddol.

**26.** Mae'r gwaith craffu yr ydym wedi'i wneud hyd yma, a'r dystiolaeth a gawsom, yn amlygu bod y ddau gytundeb rhwng y DU a'r UE yn cwmpasu meysydd sylweddol o gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig (h.y. gallu'r Senedd i ddeddfu ar gyfer Cymru). Gallai penderfyniadau a wneir gan gyrff llywodraethu gyfyngu ar allu sefydliadau datganoledig i arfer eu cymhwysedd deddfwriaethol.

**27.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu y bydd deddfwriaeth a pholisi'r UE yn parhau i gael effaith 'alldiriogaethol'[18] ar y DU a Chymru a bod yn rhaid gosod systemau ar waith ar gyfer monitro datblygiadau'r UE yn effeithiol er mwyn deall eu goblygiadau i'r DU a Chymru gan lywodraethau a deddfwrfeydd.

**Casgliad 1.** Mae angen dod o hyd i ffyrdd gwell o sicrhau goruchwyliaeth seneddol o gytundebau rhwng y DU a'r UE ar fyrder. Bydd y mater hwn yn

[16] Senedd Ewrop, y Pwyllgor ar Faterion Tramor a'r Pwyllgor ar Fasnach Ryngwladol, Report on the implementation of the EU-UK Trade and Cooperation Agreement, Motion for a European Parliament Resolution (Saesneg yn unig), 3.11.23 (2022/2188(INI))
[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Llywodraethiant y DU a'r EU: Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad
[18] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [80], 19 Mehefin 2023

gyffredin i bob deddfwrfa ar draws y DU. Rydym felly yn bwriadu ymgysylltu â seneddwyr ar chwaer-bwyllgorau i ystyried ffyrdd cyffredin o fynd i'r afael â'r mater hwn.

**Casgliad 2.** Mae cytuno ar Fframwaith Windsor a 'normaleiddio' cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn rhoi cyfle allweddol i fyfyrio ar weithrediad y strwythurau llywodraethu ac i benderfynu beth mae Cymru a'r DU ei eisiau o'r berthynas. Ni ddylid colli'r cyfle hwn.

**Casgliad 3.** Yn ystod ein hymweliad â Brwsel, roedd yn galonogol clywed am awydd parhaus i gadw a meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac adeiladol rhwng y DU a'r UE ac mae'n ddyletswydd ar bob sefydliad sydd â rôl yn y berthynas i wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae hyn yn eu darparu.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Senedd trwy ddatganiad ysgrifenedig unrhyw benderfyniadau a wneir o fewn y strwythurau llywodraethu mewn meysydd cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig. Dylai nodi ei farn ar y penderfyniadau hyn a thrafodaethau a gynhaliwyd â'r DU a/neu lywodraethau datganoledig eraill cyn y gwnaed y penderfyniadau hyn.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n monitro datblygiadau polisi a deddfwriaethol yr UE ar draws y llywodraeth i asesu eu heffaith bosibl ar Gymru a sut y mae'n rhannu'r wybodaeth hon â rhanddeiliaid. Dylai hefyd egluro pwy sydd â'r cyfrifoldeb gweinidogol ar Lywodraeth Cymru am gydgysylltu mewnbwn i strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad, a materion rhwng y DU a'r UE yn ehangach.

# 3. Rolau yn llywodraethiant y DU a'r UE

## Rolau presennol a gwella dylanwad

### Rôl Cymru yn y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

**28.** Nododd Dr Elin Royles y canlynol:

> *"The UK's withdrawal from the EU has had a fundamental impact on the devolved government's ability to influence the UK Government's position in relation to the EU. Whilst the different arrangements inevitably influence Welsh devolved matters, overall devolved government influence is more limited and variable, and seems unstructured and inconsistent."*[19]

**29.** Dywedodd yr Athro Barnard o ran dylanwad Cymru yn y ddadl Ewropeaidd ehangach, mae wedi bod yn golled oherwydd ei bod yn credu bod Cymru wedi llwyddo i gyflawni mwy na'r disgwyl.[20] Dywedodd yr Athro Barnard hefyd ei bod yn bwysig bod Cymru'n gweithio'n eithaf caled i gymryd rhan yn y strwythurau ôl-Brexit sydd ar gael iddi.[21]

**30.** Nododd Charles Whitmore fod angen i Gymru wneud y mwyaf o'r cyfleoedd newydd i ymgysylltu, ond rhybuddiodd ei bod yn anoddach gwneud hyn na phan oedd y DU yn aelod o'r UE.[22]

### Y diffyg dyfnder tiriogaethol yn y cytundebau rhwng y DU a'r UE

**31.** Amlygodd Llywydd Loïg Chesnais-Girard o Lydaw, Cadeirydd Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau, safbwynt Pwyllgor y Rhanbarthau, sef bod diffyg dyfnder tiriogaethol yn y cytundebau rhwng y DU a'r UE. Mae'r cyflwyniad yn nodi nad yw ymgysylltiad Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol yn yr UE i weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi bod yn ddigonol, er bod y cyfrifoldeb

[19] Dr Royles, Tystiolaeth ysgrifenedig
[20] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [5], 19 Mehefin 2023
[21] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [5], 19 Mehefin 2023
[22] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [41], 26 Mehefin 2023

am weithredu yn disgyn ym meysydd cyfrifoldeb a chymhwysedd yr Awdurdodau hynny.[23]

## Rôl y llywodraethau datganoledig

**32.** Yn ein cyflwyniad i ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi i'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol,[24] gwnaethom rannu pryderon Llywodraeth Cymru bod ei cheisiadau i fynychu cyfarfodydd y Cytundeb Ymadael a allai gael effaith uniongyrchol ar Gymru wedi'u gwrthod. Gwnaethom hefyd rannu pryderon Llywodraeth Cymru mai dim ond statws sylwedydd oedd ganddi yn y Cyngor Partneriaeth.[25]

**33.** Amlinellodd Gweinidog yr Economi Llywodraeth Cymru, yn ei ddatganiad diweddaraf ar y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, "[b]ryder parhaus" Llywodraeth Cymru nad yw wedi'i gwahodd eto i fod yn rhan o ddirprwyaeth y DU yng Nghyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael.[26]

**34.** Gan gydnabod bod achos yn erbyn i'r llywodraethau datganoledig gael mwy o rôl, mae'r Athro Lock yn datgan bod yr achos dros gael mwy o rôl yn y prosesau gwneud penderfyniadau yn ymddangos yn gryfach. Mae'n dadlau'r canlynol:

- mae'r Cytundeb Ymadael yn rhyngweithio cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig mewn ffordd sy'n golygu y gallai penderfyniadau a fabwysiadwyd gan gyrff Cytundeb Ymadael effeithio ar feysydd polisi sydd wedi'u datganoli;

- mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn torri'n uniongyrchol ar draws cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig, sy'n golygu y gall penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU a Chomisiwn yr UE yn y

[23] Llywydd Loïg Chesnais-Girard o Lydaw, Tystiolaeth ysgrifenedig
[24] Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Tachwedd 2022 (cyhoeddwyd)
[25] Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething AS, Llythyr i'r Arglwydd Frost, 21 Mehefin 2021
[26] Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething AS, Datganiad Ysgrifenedig: Cyfarfod y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE – 11 Medi 2023 (cyhoeddwyd 9 Tachwedd 2023)

strwythurau llywodraethu gyfyngu ar gymhwysedd Llywodraeth Cymru a'r Senedd;

- mae'n ddadl ddiffygiol, oherwydd nad oes gan Aelod-wladwriaethau'r UE rôl yn y strwythurau llywodraethu, na ddylai'r gwledydd datganoledig ychwaith. Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod pwnc y ddau gytundeb yn dod o fewn cymhwysedd unigryw'r UE sy'n gweithredu ar ran Aelod-wladwriaethau, ond ar gyfer y DU, nid ydynt o fewn cymhwysedd unigryw Senedd y DU na Llywodraeth y DU;
- mae'r anghydbwysedd yn setliad datganoli'r DU yn golygu y bydd Lloegr a buddiannau Lloegr bob amser yn cael eu cynrychioli yn rhinwedd bod Gweinidogion y DU hefyd yn Weinidogion Lloegr. Mae hyn yn ei gwneud yn bwysig bod cynrychiolaeth deg yn cael ei rhoi i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a allai brofi materion gweithredu gwahanol i Loegr.[27]

**35.** Tynnodd yr Athro Barnard sylw at y ffaith bod diffyg presenoldeb i Gymru yng nghyfarfodydd y Cytundeb Ymadael yn broblem wirioneddol oherwydd effaith Protocol Gogledd Iwerddon a Fframwaith Windsor ar borthladdoedd Cymru.[28]

**36.** Mewn perthynas â Fframwaith Windsor, dywedodd yr Athro Barnard y bydd llawer o faterion gweithredol y bydd angen eu datrys dros y misoedd nesaf – pethau a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar Gymru[29]. Mynegodd yr Athro David Phinnemore a Dr Whitten farn debyg, ac maent yn tynnu sylw arbennig at y Corff Arbennig ar Nwyddau a sefydlwyd o dan Fframwaith Windsor y maent yn dweud y gallai fod gan fusnesau o Gymru ddiddordeb arbennig ynddo.[30]

**37.** Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod ei swyddogion yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau a Bwrdd Rhaglen trosfwaol Gogledd Iwerddon sy'n goruchwylio gweithredu Fframwaith Windsor. Mae ei swyddogion wrthi'n trafod â DEFRA ynghylch y trefniadau llywodraethu i sicrhau bod buddiannau a safbwyntiau Cymru ar Gynllun Symudiad Manwerthu

[27] Yr Athro Lock, Tystiolaeth ysgrifenedig
[28] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [13], 19 Mehefin 2023
[29] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [13], 19 Mehefin 2023
[30] Yr Athro Phinnemore a Dr Whitten, Tystiolaeth ysgrifenedig

[Fframwaith Windsor] yn cael eu hystyried ac yr eir i'r afael â nhw ac mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i gynnig yn nodi sut y cytunir ar newidiadau i'r Cynllun yn y dyfodol.[31]

## Rôl sefydliadau is-wladwriaeth

**38.** Pwysleisiwyd rôl bwysig gweithredwyr iswladwriaethol, rhanbarthau, awdurdodau lleol a'r gymdeithas sifil o ran gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a datblygu cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Clywodd y Pwyllgor am y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan weithredwyr gwahanol yn y DU a'r UE ar lefel iswladwriaethol ond clywodd hefyd y gellid eu cryfhau, rhoi adnoddau gwell iddynt a'u defnyddio'n well.

**39.** Nododd y Grŵp Cyswllt rhwng Pwyllgor y Rhanbarthau a'r DU enghreifftiau diriaethol o feysydd lle mae ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol yr UE yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[32] Mae'r rhain yn cynnwys meysydd fel rheoli pysgodfeydd, materion yn ymwneud â chydweithrediad rheoleiddiol, a diffyg cydymffurfio ar faterion megis rheoli carthffosiaeth a symudedd.

**40.** Amlinellodd Pwyllgor y Rhanbarthau ei safbwynt, sef y dylid cael cydnabyddiaeth ffurfiol i Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau a'r DU yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu er mwyn iddo ddarparu asesiad o ddimensiwn is-genedlaethol y materion polisi a deddfwriaethol allweddol a fydd yn cael effaith ar y berthynas ddwyochrog rhwng yr UE a'r DU. Roedd yn cydnabod y gallai hyn olygu bod angen newid y cytundeb ac y gallai felly fod yn uchelgais tymor hir.[33]

**41.** Ym Mrwsel, cawsom ein cynghori ynghylch y potensial ar gyfer cydgysylltu amseriad cyfarfodydd gwahanol rhwng y DU a'r UE yn y strwythurau llywodraethu ffurfiol a'r tu allan iddynt er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ymgysylltu rhwng gweithredwyr iswladwriaethol a gwladwriaethol. Er enghraifft,

---

[31] Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 21 Gorffennaf 2023

[32] Llywydd Loïg Chesnais-Girard. Cadeirydd Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau a'r DU, Tystiolaeth ysgrifenedig

[33] Llywydd Loïg Chesnais-Girard. Cadeirydd Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau a'r DU, Tystiolaeth ysgrifenedig

cynnal cyfarfodydd y Fforwm Cymdeithas Sifil a'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar ddyddiadau tebyg ac yn yr un lleoliadau.

### Gwelliannau posibl

**42.** Er i ni gael tystiolaeth i gefnogi rôl gryfach i'r llywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig yn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE, mynegodd tystion bryder ei bod yn annhebygol o gael ei gweithredu ar hyn o bryd.[34] [35]

**43.** Serch hynny, cawsom nifer o argymhellion ar gyfer gwelliannau ar unwaith y gellid eu gwneud, heb ganiatáu statws cyfranogwr llawn i'r llywodraethau datganoledig. Roedd hyn yn cynnwys gwella cysylltiadau, ymgysylltu a strwythurau rhynglywodraethol yn ddomestig.[36]

**44.** Er y cydnabuwyd bod newid cytuniad i ddarparu rôl fwy sylweddol i lywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig yn fater tymor hir, nododd Pwyllgor y Rhanbarthau, fel mesur interim, nifer o opsiynau posibl eraill ar gyfer ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol yr UE a sefydliadau datganoledig yn strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Er na fyddai'r rhain yn ddigon ar gyfer y gydnabyddiaeth ffurfiol a nododd Pwyllgor y Rhanbarthau, gallent ddarparu rôl ystyrlon. Galwodd Pwyllgor y Rhanbarthau ar aelodau'r DU a Phwyllgor y Rhanbarthau o'r Grŵp Cyswllt i ddatblygu safbwynt cyffredin ar y cyd ar wella eu rôl wrth fonitro gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[37]

## Ein barn ni

**45.** Mae'n siomedig, ond efallai nad yw'n syndod, yn ystod cyfnod lle mae trafodaethau dwys rhwng y DU a'r UE wedi bod, fod rôl llywodraethau datganoledig, sefydliadau ac Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol yr UE wrth wneud penderfyniadau wedi lleihau. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn amlygu y bydd

[34] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [53], 19 Mehefin 2023
[35] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [30], 19 Mehefin 2023
[36] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [88], 19 Mehefin 2023
[37] Llywydd Loïg Chesnais-Girard. Cadeirydd Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau a'r DU, Tystiolaeth ysgrifenedig

llywodraethau datganoledig, deddfwrfeydd ac Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol yn allweddol i weithrediad llwyddiannus cytundebau rhwng y DU a’r UE.

**46.** Mae tystiolaeth gref i gefnogi’r angen am rôl ehangach i lywodraethau datganoledig yn y strwythurau llywodraethu. Byddai hyn yn nodi ac yn cydnabod yr anghydbwysedd cynhenid o ran Gweinidogion y DU yn gweithredu fel Gweinidogion Lloegr a’r DU.

**47.** Mae angen i weithrediad ymarferol y strwythurau llywodraethu sy'n llunio'r cytundebau a'r berthynas barhau i esblygu ac addasu wrth i'w heffeithiau ymarferol ddod yn glir.

**48.** Mae’r deddfwrfeydd datganoledig yn y DU yn gyfrifol am basio cyfreithiau a chraffu ar weithrediad y cytundebau gan lywodraethau datganoledig. Mae’n rhaid i well dyfnder tiriogaethol y cytundebau gynnwys cydnabyddiaeth o rôl hanfodol y deddfwrfeydd datganoledig wrth oruchwylio camau gweithredu eu llywodraethau ac wrth wneud cyfraith.

**Casgliad 4.** Rydym yn cytuno bod diffyg “dyfnder tiriogaethol” i'r cytundebau rhwng y DU a'r UE y mae normaleiddio cysylltiadau yn gyfle i'w unioni.

**Casgliad 5.** Mae achos cymhellol i’w wneud dros gynnwys lleisiau iswladwriaethol a rhanbarthol eraill, megis sefydliadau datganoledig ac Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol yr UE ymhellach mewn strwythurau llywodraethu, yn enwedig gan mai nhw sy’n gyfrifol am weithredu rhannau allweddol o gytundebau’r DU a’r UE. Bydd dealltwriaeth well o’r materion ar y lefelau hyn yn darparu gwybodaeth, profiad a thystiolaeth ymarferol bwysig i Lywodraeth y DU a’r Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys ar rwystrau posibl rhag gweithredu a allai lywio eu gwaith ac osgoi dyblygu, cost a/neu oedi diangen.

**Casgliad 6.** Rydym yn cefnogi nod hirdymor Pwyllgor y Rhanbarthau ar gyfer y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad i roi cydnabyddiaeth ffurfiol i rôl aelodau’r DU a’r UE o Bwyllgor y Rhanbarthau wrth fonitro a chefnogi gweithrediad y cytundeb.

**Casgliad 7.** Yn y cyfamser, mae yna nifer o ffyrdd ymarferol y gellir gwella ymgysylltiad sefydliadau datganoledig ac Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol ac rydym yn ymrwymo i arwain gwaith gyda sefydliadau datganoledig eraill,

sefydliadau awdurdodau lleol y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau i ddatblygu atebion ymarferol a safbwynt ar y cyd ar sut y gellid gweithredu hyn. Un ateb posibl ar unwaith fyddai cydgysylltu amserau a lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd presennol, megis Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau a'r DU, y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a'r Fforwm Cymdeithas Sifil, er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd i ddatblygu safbwyntiau cyffredin a rhannu gwybodaeth ar draws y strwythurau hyn yn cael eu colli.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddadlau dros roi rôl lawn iddi yn y Cyngor Partneriaeth a statws sylwedydd yng nghyfarfodydd perthnasol y Cyd-bwyllgor a phwyllgorau eraill y Cytundeb Ymadael, fel y bo'n berthnasol.

## Cysylltiadau rhynglywodraethol ar faterion rhwng y DU a'r UE

**49.** Dywedodd Charles Whitmore ei bod yn anodd, mewn rhai ffyrdd, i gyrraedd asesiad diffiniol o gysylltiadau rhynglywodraethol ar faterion y DU a'r UE oherwydd diffyg tryloywder a chraffu. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth sydd ar gael yn awgrymu dirywiad mewn ymgysylltiad a chysylltiadau rhynglywodraethol ar faterion y DU a'r UE.[38] Cefnogwyd y safbwynt hwn gan Dr Royles a'r Athro Lock.

**50.** Dywedodd Dr Royles, o gymharu â strwythurau ar gyfer rheoli cysylltiadau rhynglywodraethol ar bolisi'r UE cyn Brexit (sef y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (JMC) ar Ewrop), nad oes llawer o eglurder na chydlyniad i ymgysylltiad llywodraethau datganoledig gan Lywodraeth y DU mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit.[39]

**51.** Tynnodd Dr Royles sylw at y ffaith mai problem sylweddol gyda'r cysylltiadau rhynglywodraethol presennol yw'r diffyg eglurder ynghylch pryd, ac ar ba faterion, y bydd llywodraethau datganoledig yn ymgysylltu. Wrth dynnu sylw at hyn, amlinellodd Dr Royles y dogfennau a'r strwythurau amrywiol sy'n ymwneud â chysylltiadau rhynglywodraethol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE gan gynnwys: Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a Choncordatiau ar Faterion Polisi'r UE a Chysylltiadau Rhyngwladol – yr egwyddorion a nodir yn yr adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol a'r egwyddorion a nodir yn y llythyr gan yr

[38] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig
[39] Dr Royles, Tystiolaeth ysgrifenedig

Arglwydd Frost ym mis Mai 2021[40], a oedd yn nodi ar ba sail y byddai llywodraethau datganoledig yn ymwneud â strwythurau'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[41]

**52.** Mae Dr Royles yn tynnu sylw at y ffaith bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Faterion Polisi'r UE yn darparu dehongliad eang o rôl llywodraethau datganoledig yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng y DU a'r UE, o gymharu â'r diffiniad cul a nodir yn y llythyr gan yr Arglwydd Frost. Mae'r diffyg eglurder a chysondeb hwn, mae hi'n dadlau, yn golygu bod y Grŵp Rhyngweinidogol newydd ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE wedi dod yn fan lle mae'r llywodraethau datganoledig yn dadlau ac yn eirioli dros rôl fwy, yn hytrach na man lle y gellid trafod a datblygu safbwyntiau'r DU y cytunwyd arnynt ar gysylltiadau'r DU a'r UE a pholisi'r UE.[42]

**53.** Ychwanegodd yr Athro Lock fod y ffaith ei bod yn ymddangos bod cyfarfodydd Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn cael eu cynnal dri i bedwar diwrnod cyn cyfarfodydd llywodraethu'r DU a'r UE yn awgrymu bod y Grwpiau Rheoli Integredig yn cael eu defnyddio fel mecanwaith i gyfnewid gwybodaeth, yn hytrach nag ymgysylltu.[43]

**54.** Ym Mrwsel, cawsom ein hysbysu bod cydgysylltu da rhwng y llywodraethau datganoledig a rhyngddyn nhw a Chenhadaeth y DU i'r UE. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod angen gwella pethau o ran y strwythurau rhynglywodraethol o fewn y DU ar faterion a phenderfyniadau rhwng y DU a'r UE. Clywodd y Pwyllgor fod lefel y diddordeb, y gydnabyddiaeth a'r ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig yn gymysg ar draws adrannau Whitehall a'i bod yn dibynnu ar ymwybyddiaeth yr adran dan sylw o faterion datganoledig a phrofiad blaenorol o weithio ar y materion hynny.[44]

**55.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi egluro'r canlynol i ni o'r blaen:

[40] Llythyr oddi wrth yr Arglwydd Frost at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ac eraill, 27 Mai 2021
[41] Dr Elin Royles, Tystiolaeth ysgrifenedig
[42] Dr Elin Royles, Tystiolaeth ysgrifenedig
[43] Yr Athro Lock, Tystiolaeth ysgrifenedig
[44] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023

> *"… we have made clear that we expect to be given proper notice of all intergovernmental meetings of this nature, consistent with the principles agreed under the review of IGR. Welsh Government officials have fortnightly meetings with the UK Government's EU Secretariat and the other Devolved Governments, and through this we will continue to seek to ensure future meetings of the IMG operate in line with these principles".*[45]

**56.** Argymhellodd Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi yn ei adroddiad ar y Berthynas Rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol y dylai Grwpiau Rhyngweinidogol perthnasol gael eu cynnull fel mater o drefn cyn cyfarfodydd strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE er mwyn galluogi llywodraethau datganoledig i gyfrannu eu barn.[46] Rydym yn croesawu ei argymhellion.

**57.** Yn y datganiad diweddaraf gan Weinidog yr Economi ar waith y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, nodir y cynhaliwyd y cyfarfod ar 11 Medi yn barod ar gyfer ystod o gyfarfodydd rhwng y DU a'r UE dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar gyfer gweddill 2023 ac y disgwylir cynnal cyfarfod nesaf Cydbwyllgor hy Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE ddechrau mis Ionawr 2024. Mae hyn yn nodi bod ymgysylltiad cynharach wedi'i gynnal ar gyfer cyfarfodydd i ddod nag mewn achosion blaenorol.[47]

**58.** Daeth yr Athro Phinnemore a Dr Whitten i'r casgliad bod yr amgylchedd rheoleiddio ôl-Brexit yn y DU yn hynod gymhleth[48], gan nodi diffyg eglurder ynghylch sut mae gwahanol gyrff a strwythurau mewnol y DU, megis fframweithiau cyffredin, cyrff llywodraethu ffurfiol o dan gytundebau'r DU a'r UE a chyrff domestig megis Swyddfa Marchnad Fewnol yn rhyngweithio.

**59.** Mae'r awgrymiadau a wnaed yn y dystiolaeth ar gyfer gwella cysylltiadau rhynglywodraethol ar faterion y DU a'r UE yn cynnwys:

---

[45] Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor DCC gan y Cwnsler Cyffredinol, 20 Ebrill 2022
[46] Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, 4ed Adroddiad Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, Ebrill 2023
[47] Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething AS, Datganiad Ysgrifenedig: Cyfarfod y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE – 11 Medi 2023 (cyhoeddwyd 9 Tachwedd 2023)
[48] Yr Athro Phinnemore a Dr Whitten, Tystiolaeth ysgrifenedig

- pennu egwyddorion, rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer rheoli cysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer cysylltiadau â'r UE;
- ymgysylltiad cyson â llywodraethau datganoledig gan Lywodraeth y DU yn seiliedig ar yr egwyddorion clir hyn;
- ymgysylltiad mwy ystyrlon ac amserol y llywodraethau datganoledig drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau'r DU a'r UE fel ei fod yn dod yn grŵp lle yr ymgynghorir yn briodol â llywodraethau datganoledig a lle y cyrhaeddir safbwyntiau ar y cyd ar faterion datganoledig a gwmpesir gan gytundebau rhwng y DU a'r UE.

**60.** Awgrymodd yr Athro Lock y dylai llywodraethau datganoledig allu awgrymu materion i'w gosod ar agenda cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE.[49]

**61.** Nododd Charles Whitmore fod arwyddion y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn barod i ganiatáu amser ar gyfer ymgysylltiad domestig pellach yn y DU a/neu'r UE. Tynnodd sylw at gofnodion cyfarfod Pwyllgor Masnach Arbenigol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, lle galwodd yr UE am gytuno ar yr agenda ymhellach ymlaen llaw i roi mwy o amser i'r Comisiwn Ewropeaidd ymgysylltu ag Aelod-wladwriaethau'r UE.[50]

**62.** Awgrymodd yr Athro Barnard y gellid gwneud mwy i ddatblygu'r berthynas uniongyrchol rhwng Cenhadaeth y DU â'r UE, llywodraethau datganoledig a deddfwrfeydd datganoledig fel bod adborth mwy rheolaidd ar faterion yn digwydd.[51]

**63.** Daeth Dr Whitten a'r Athro Phinnemore i'r casgliad bod sicrhau bod safbwyntiau'r sefydliadau datganoledig, yn enwedig y rhai yng Nghymru a'r Alban, yn cael eu cynrychioli yn mynd i fod yn her fawr.[52] Fodd bynnag, nododd Charles Whitmore ei bod yn bwysig bod yr achos yn parhau i gael ei wneud dros ymgysylltu'n well â'r llywodraethau datganoledig.[53] Mae'r Athro Lock a Dr Royles

[49] Yr Athro Lock, Tystiolaeth ysgrifenedig
[50] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig
[51] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [36], 19 Mehefin 2023
[52] Yr Athro Phinnemore a Dr Whitten, Tystiolaeth ysgrifenedig
[53] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig

hefyd yn dod i'r casgliad y dylai'r llywodraethau datganoledig gael llais yn y cytundebau y mae'n rhaid iddynt eu gweithredu.[54]

## Ein barn ni

**64.** Mae cysylltiadau rhynglywodraethol ac ymgysylltiad ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE wedi dirywio ar ôl Brexit ond gellid yn hawdd eu gwella.

**65.** Gallai ymgysylltiad cynharach, mwy cyson a mwy ystyrlon gan Lywodraeth y DU wella rôl llywodraethau datganoledig yn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE, sy'n bwysig am yr holl resymau a amlinellir ym mhennod 3 o'r adroddiad hwn. Nodwn fod cyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn nodi bod ymgysylltiad cynharach wedi'i gynnal cyn cylch nesaf y cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE. Mae hyn i'w groesawu ac rydym yn gobeithio bod yr arfer da hwn yn parhau.

**66.** Mae'r angen i ailedrych ac ailddrafftio'r sail ar gyfer ymgysylltu â llywodraethau datganoledig ar y materion hyn yn glir. Byddai'n sicrhau bod Llywodraeth y DU mewn sefyllfa well i gyflwyno'r dystiolaeth gryfaf bosibl yn ei thrafodaethau â'r UE. Efallai na fydd llywodraethau'r DU bob amser yn cytuno ar bob mater ond dylid gwneud safbwyntiau terfynol ar feysydd cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig ar sail trafodaethau a dadl deg a chadarn rhwng y llywodraethau.

**67.** Mae gan bedair llywodraeth y DU eu harbenigedd a'u profiad eu hunain y gallant eu cynnig. Cyn i'r DU adael yr UE roedd yn arfer cyffredin i'r llywodraethau datganoledig ymwneud â datblygu safbwynt y DU ar gynigion yr UE. Ni ddylid diystyru gwerth yr arbenigedd cyfunol hwn. Gallai darparu ymgysylltiad a mewnbwn mwy ystyrlon i'r llywodraethau datganoledig wrth ddatblygu safbwynt y DU ar gysylltiadau â'r UE gynhyrchu syniadau ac atebion a fyddai o fudd i'r DU gyfan.

**68.** Mae tystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod mwy nag un Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, yn ogystal â llythyrau a dogfennau sy'n nodi rolau amrywiol ar gyfer y llywodraethau datganoledig mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Mae rhai o'r rhain yn ymwneud â'r cyfnod pan oedd y DU yn dal i fod yn aelod o'r

[54] Yr Athro Lock a Dr Royles, Tystiolaeth ysgrifenedig

UE a datblygwyd eraill tra bod y DU yn dal yng nghanol trafodaethau. Mae'r 'normaleiddio' cymharol ar gysylltiadau yn rhoi cyfle i hyn gael ei adolygu ac i osod safbwynt clir mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

**69.** Rydym yn cydnabod y bydd y gwaith o gyflawni rhai o’n hargymhellion isod yn cael eu heffeithio gan ddiffyg Gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon ac mai dim ond ar ôl adfer y trefniadau rhannu pŵer yng Ngogledd Iwerddon y gellir cytuno ar sail newydd a diwygiedig ar gyfer ymgysylltu rhynglywodraethol ar gysylltiadau’r DU a’r UE. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn bosibl cymryd rhai camau ar unwaith i wella.

**70.** Rydym yn mynd i’r afael â thryloywder y strwythurau rhynglywodraethol hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 4.** Dylai llywodraethau’r DU gynnal adolygiad ar fyrder o’r egwyddorion a’r telerau y mae’r llywodraethau datganoledig yn ymwneud â nhw mewn cysylltiadau rhwng y DU a’r UE. Dylai hyn arwain at fabwysiadu cylch gwaith newydd ar gyfer y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a’r UE.

**Argymhelliad 5.** Dylai’r Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau’r DU a’r UE fabwysiadu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ar rôl llywodraethau datganoledig mewn cysylltiadau rhwng y DU a’r UE er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir, ac ymgysylltiad cyson, gan wahanol adrannau’r DU a’r llywodraeth ddatganoledig.

**Argymhelliad 6.** Dylai’r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a’r UE ddarparu ar gyfer ymgysylltu mwy ystyrlon drwy sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal digon ymlaen llaw cyn cyfarfodydd Cydbwyllgor y Cytundeb Ymadael a Chyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i ganiatáu ar gyfer mewnbwn datganoledig llawn. Dylai hyn gynnwys rhoi digon o gyfle i lywodraethau datganoledig awgrymu eitemau ar yr agenda i’w cynnwys mewn cyfarfodydd llywodraethu rhwng y DU a’r UE.

**Argymhelliad 7.** Mae ein gwaith ar Fframweithiau Cyffredin a *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* yn cefnogi’r farn a amlinellwyd uchod, sef bod strwythurau llywodraethu yn y DU ar ôl Brexit ar faterion y DU a’r UE yn

gymhleth. Dylai llywodraethau'r DU drwy'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol nodi safbwynt y cytunwyd arno ar gyfer y modd y mae'r cyrff newydd hyn yn rhyngweithio ac yn gweithio gyda'i gilydd, sy'n cynnwys rolau'r gwahanol lywodraethau a sefydliadau oddi mewn iddynt.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru godi'r materion yr ydym yn eu nodi yn argymhellion 4, 5, 6 a 7 gyda llywodraethau eraill y DU yn y fforymau priodol ac adrodd ar y canlyniad o fewn 3 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

# 4. Cyfeiriad strategol

## Strategaethau a blaenoriaethau ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

**71.** Mae tystiolaeth a gawsom yn nodi y gallai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru geisio gwella eu dylanwad dros y berthynas rhwng y DU a'r UE drwy fabwysiadu strategaethau a blaenoriaethau clir ar gyfer y berthynas.

**72.** Dywedodd yr Athro Usherwood mai un o'r materion allweddol yw nad yw'r Llywodraeth yn Llundain wedi bod yn glir ynghylch yr hyn y mae'n ei ddymuno o'r berthynas.[55]

**73.** Cyfeiriwyd gan yr Athro Phinnemore a Dr Whitten[56] at dystiolaeth gan yr Athro Katy Hayward i Dŷ'r Arglwydd sy'n datgan:

> *"Withdrawal from the EU has seen the UK abandon membership of and formal influence over the strategic priorities of and policy making in the EU. Early experiences reveal a rather weak UK influence over the terms of both the Withdrawal Agreement and the TCA. Greater preparedness, internal UK cohesion, time and ambition may have led to a less imbalanced outcome to the withdrawal negotiations and those on the TCA."*

**74.** Fodd bynnag, mae'r un dystiolaeth yn dod i'r casgliad bod y ddau gytundeb rhwng y DU a'r UE yn rhoi cyfle i'r DU yn awr lywio datblygiad cysylltiadau yn ogystal â dylanwadu, yn dybiannol o leiaf, ar lunio polisïau'r UE.[57]

**75.** Mewn perthynas â Chymru a Llywodraeth Cymru, galwodd Tom Jones[58], Charles Whitmore[59] a Dr Royles[60] ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu ei strategaeth benodol ei hun ar gysylltiadau'r UE neu Ewrop.

[55] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [19], 19 Mehefin 2023
[56] Yr Athro Phinnemore a Dr Whitten, Tystiolaeth ysgrifenedig
[57] Yr Athro Phinnemore a Dr Whitten, Tystiolaeth ysgrifenedig
[58] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [26], 26 Mehefin 2023
[59] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [42], 26 Mehefin 2023
[60] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [150], 26 Mehefin 2023

**76.** Awgrymodd Dr Royles y byddai strategaeth glir a chyfres o flaenoriaethau yn galluogi Cymru i ddylanwadu'n well ar safbwyntiau Llywodraeth y DU a'r UE.[61] Mynegodd Charles Whitmore[62] a Tom Jones[63] safbwyntiau tebyg hefyd, gan ddweud y byddai strategaeth glir yn caniatáu ar gyfer cydgysylltu mwy effeithiol rhwng gwahanol sefydliadau Cymru a chyrff sy'n gweithio ar faterion y DU a'r UE.

**77.** Nododd Tom Jones y byddai hyn yn sicrhau y gall Cymru dylanwadu'n well ar faterion o bwys i Gymru, gan nodi na ellir dod unwaith y flwyddyn a disgwyl cael dylanwad.[64]

**78.** Ategwyd hyn gan yr Athro Barnard, a dynnodd sylw at esiampl Norwy, sydd, er nad yw'n Aelod o'r UE, ag un o'r cenadaethau diplomyddol mwyaf ym Mrwsel.[65]

**79.** Galwodd Charles Whitmore ar i Lywodraeth Cymru naill ai ddatblygu strategaeth Cymru-Ewrop benodedig, neu i'w Strategaeth Ryngwladol gael ei diweddaru i fynegi blaenoriaethau manylach a chlir ar gyfer perthynas Cymru â'r UE ac Ewrop yn ehangach.[66]

**80.** Ym Mrwsel, clywsom fod y DU, mewn sawl ffordd, yn dal i addasu i'w rôl fel 'trydedd wlad' ac yn dal i geisio deall ac addasu i weithio gyda'r UE yn y modd hwn.[67]

**81.** Neges glir a glywsom gan randdeiliaid ym Mrwsel oedd pwysigrwydd sefydlogrwydd, dibynadwyedd a chyfeiriad clir gan y DU ynghylch yr hyn y mae ei eisiau gan y berthynas rhwng y DU a'r UE. Tynnwyd ein sylw at yr angen am restr glir o flaenoriaethau o'r hyn y mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ei eisiau. Amlygwyd y mater hwn gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon y Senedd. Yn ei gyflwyniad i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi dywedodd bod absenoldeb strategaethau pwrpasol ar gyfer cysylltiadau'r DU a'r UE ar lefel y DU

[61] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [150], 26 Mehefin 2023
[62] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [62], 26 Mehefin 2023
[63] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [71], 26 Mehefin 2023
[64] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [95], 26 Mehefin 2023
[65] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [79], 19 Mehefin 2023
[66] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig
[67] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023

a Chymru yn cynrychioli heriau wrth lywio, a chyflawni gwaith craffu effeithiol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit.[68]

**82.** Wrth ddarparu tystiolaeth inni, amlinellodd y Prif Weinidog rai meysydd ar raglenni ariannu'r UE lle hoffai Cymru weld cyfranogiad y DU, sef Erasmus, Creative Europe ac Interreg. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn negodi cytundeb milfeddygol i hwyluso symud da byw a bwyd.[69]

**83.** Dywedodd y Prif Weinidog wrthym hefyd nad oedd yn cytuno bod angen strategaeth newydd ar Ewrop. Fodd bynnag, dywedodd fod angen adnewyddu Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru cyn diwedd y Chweched Senedd ac efallai y bydd cyfleoedd i wneud dimensiwn Ewrop ar hynny ychydig yn fwy amlwg.[70]

**84.** Pwysleisiwyd pwysigrwydd pŵer meddal a chyfranogiad mewn rhwydweithiau Ewropeaidd sy'n agored i wledydd yr UE a'r tu allan i'r UE mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ym Mrwsel. Ymhlith y rhwydweithiau mae Menter Vanguard a Chynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gall rhwydweithiau o'r fath ddarparu gwybodaeth a chyfleoedd i lywio polisi'r UE drwy bartneriaid a rhanbarthau cynghreiriol na fyddai ar gael i'r DU fel arall. Canmolwyd cyfranogiad parhaus cyrff Cymru mewn rhwydweithiau o'r fath gan y rhai y cyfarfuom â nhw.

**85.** Clywsom hefyd am bwysigrwydd gwaith Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop, Derek Vaughan, o ran cynyddu ymwybyddiaeth o waith Llywodraeth Cymru a Chymru yn fwy cyffredinol yn sefydliadau'r UE.

**86.** Nodwyd bod digwyddiadau diwylliannol a thematig sy'n helpu i hyrwyddo gwledydd y DU ac sy'n pwysleisio meysydd o ddiddordeb cyffredin hefyd yn bwysig er mwyn cynnal perthynas a meithrin rhwydweithiau a chysylltiadau.[71]

---

[68] Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon, Hydref 2022
[69] Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan y Prif Weinidog, 6 Hydref 2023
[70] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [105]
[71] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023

## Ein barn ni

**87.** Rydym yn cytuno â'r farn bod y 'normaleiddio' mewn cysylltiadau yn rhoi cyfle pwysig i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fynegi'n glir eu strategaethau a'u blaenoriaethau ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae awydd clir am hyn gan randdeiliaid yr UE a Chymru.

**88.** Tynnodd rhanddeiliaid yng Nghymru sylw at y ffaith nad oeddent yn gwybod beth yw blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a'i bod yn bwysig, ar adegau o adnoddau cyfyngedig, eu bod yn gallu canolbwyntio eu hadnoddau eu hunain i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau Cymru.

**89.** Rydym yn nodi barn y Prif Weinidog, nad oes angen strategaeth benodol ar gyfer cysylltiadau Cymru-Ewropeaidd, ond y gallai adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol cyn diwedd y Senedd hon roi cyfle i wneud blaenoriaethau Ewropeaidd Llywodraeth Cymru yn fwy amlwg. Rydym yn croesawu'r wybodaeth ychwanegol am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a ddarparwyd ganddo.

**90.** Serch hynny, nid yw'n ymddangos bod gan sefydliadau ym Mrwsel na rhanddeiliaid o Gymru ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol. Mae'n hanfodol felly bod modd dod o hyd i ddull o fynegi'r blaenoriaethau hyn yn glir mewn ffordd agored a thryloyw i alluogi pob corff a sefydliad i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gymunedau ledled Cymru.

**91.** Mae cyfranogiad parhaus Cymru mewn rhwydweithiau Ewropeaidd drwy gyrff a sefydliadau cynrychioliadol, a gwaith Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop yn uchel ei barch ym Mrwsel. Mae'n amlwg bod y buddion i Gymru o gyfranogiad yn y rhwydweithiau hyn yn fwy na gwaith uniongyrchol y rhwydweithiau eu hunain, ac yn ychwanegol atynt. Mae cyfleoedd i ddylanwadu, casglu gwybodaeth, rhannu arfer gorau a hyrwyddo Cymru drwy'r rhwydweithiau Ewropeaidd hyn y mae'n bwysig eu cydnabod. Wrth adnewyddu ei Strategaeth Ryngwladol a datblygu blaenoriaethau strategol ar gyfer ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried gyda'r sefydliad

cymdeithas sifil a fyddai aelodaeth o ragor o rwydweithiau o fudd i Gymru. Er enghraifft, cyfranogiad mewn cyrff megis Cymdeithas Rhanbarthau Ewrop.

**92.** Nodwn fod swydd Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop wedi'i bwriadu i ddechrau am gyfnod o ddwy flynedd a bydd yn destun adolygiad ym mis Ionawr 2024. I ni, mae'n amlwg bod creu'r rôl hon wedi bod yn hanfodol i ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'i pherthynas â'r UE. Dylid cyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r rôl a sut y cyflawnodd y swydd amcanion Llywodraeth Cymru.

**93.** Wrth ystyried iteriadau o'r swydd yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ganlyniadau y byddai'r swydd yn ceisio eu cyflawni a sicrhau y darperir diweddariadau rheolaidd i'r Senedd fel y gellir dwyn Gweinidogion i gyfrif am y gwaith a wneir gan y rôl.

**Casgliad 8.** Mae angen clir i'r DU fabwysiadu a chyhoeddi blaenoriaethau strategol clir ar gyfer perthynas y DU â'r UE. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi ystyriaeth frys i'r mater hwn. Wrth ddatblygu set o flaenoriaethau strategol clir mae'n hanfodol bod llywodraethau datganoledig yn cael eu cynnwys ac yr ymgynghorir â nhw ar ei gynnwys.

**Argymhelliad 9.** Dylai blaenoriaethau strategol a gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol y berthynas rhwng Cymru a'r UE gael eu mynegi'n glir gan Lywodraeth Cymru naill ai mewn strategaeth benodol mewn Strategaeth Ryngwladol ar ei newydd wedd.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau ymgynghori â'r sefydliad cymdeithas sifil a rhanddeiliaid yng Nghymru ar y blaenoriaethau hyn a'i gweledigaeth ar unwaith.

**Argymhelliad 11.** Dylai cyfranogiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru yn y rhwydweithiau Ewropeaidd a'i chefnogaeth i gymdeithas sifil Cymru ymgysylltu â hwy barhau a dylid adlewyrchu eu pwysigrwydd wrth adnewyddu ei Strategaeth Ryngwladol.

**Argymhelliad 12.** Wrth adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol a datblygu blaenoriaethau strategol ar gyfer ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chymdeithas sifil i ystyried cyfleoedd ar gyfer

ymgysylltu ymhellach â rhwydweithiau Ewropeaidd a all helpu i gyflawni blaenoriaethau strategol i Gymru.

**Argymhelliad 13.** Mae penodi Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru i Ewrop wedi bod yn rhan bwysig o’r berthynas â sefydliadau’r UE ar ôl Brexit. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio parhau â’r rôl hon ar ôl mis Ionawr 2024. Dylai gwaith deiliad y swydd yn y dyfodol fod yn gyson â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer ei pherthynas â’r UE a dylid darparu diweddariadau rheolaidd i’r Senedd ar y gwaith y mae deiliad y swydd yn ei wneud.

# 5. Tryloywder

## Tryloywder strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE

**94.** Yn ein cyflwyniad i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, galwom ar bob un o'r pedair llywodraeth yn y DU i fynd i'r afael ar y cyd â phryderon ynghylch diffyg tryloywder yn strwythurau'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac i sefydlu dulliau mwy tryloyw o hysbysu deddfwrfeydd a rhanddeiliaid am ganlyniadau cyfarfodydd y DU a'r UE.

**95.** Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn yn cefnogi'r casgliadau a amlinellwyd yn ein cyflwyniad.

**96.** Dywedodd yr Athro Barnard wrthym fod absenoldeb tryloywder ym mhroses gwneud penderfyniadau'r DU a'r UE yn hollol ysgytwol.[72] Dywedodd fod yr agendâu cyhoeddedig yn sgerbydol a'i bod yn anodd iawn dod o hyd i wybodaeth.[73] Dywedodd yr Athro Barnard y canlynol hefyd:

> *"…transparency is required and at the moment, some of it feels pretty much like the transparency of a black box".*[74]

**97.** Cytunodd Dr Brigid Fowler[75] a Charles Whitmore[76] â'r asesiad hwn gan yr Athro Barnard.

**98.** Tynnodd Charles Whitmore sylw at y ffaith bod yr ymrwymiadau tryloywder yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ei hun yn gyfyngedig iawn. Awgrymodd fod hyn yn gwneud gwell tryloywder a chraffu ar strwythurau rhynglywodraethol y DU ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn bwysicach fyth.[77]

**99.** Awgrymodd Tom Jones fod diffyg tryloywder ar gysylltiadau â'r UE hefyd yn fater sy'n benodol i Gymru ac, ar ôl Brexit, nad oes strwythurau ar gyfer

---

[72] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [28], 19 Mehefin 2023
[73] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [28], 19 Mehefin 2023
[74] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [29], 19 Mehefin 2023
[75] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [87], 26 Mehefin 2023
[76] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [90], 19 Mehefin 2023
[77] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig

atebolrwydd priodol yng Nghymru wedi'u datblygu.[78] Croesawodd yr ymchwiliad fel cam pwysig cyntaf yn y broses honno.[79]

**100.** Roedd Dr Fowler[80] a'r Athro Usherwood[81] yn dweud nad yw strwythurau San Steffan ar gyfer craffu ar faterion yr UE ar ôl Brexit wedi datblygu'n llawn eto, gan adael bwlch craffu.

**101.** Pwysleisiodd yr Athro Phinnemore a Dr Whitten y bydd gwell tryloywder ar weithrediad Protocol Gogledd Iwerddon a Fframwaith Windsor yn hanfodol i sicrhau cefnogaeth rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon.[82]

**102.** Ym mis Chwefror 2022, fe wnaethom ysgrifennu at y Prif Weinidog[83] i ofyn iddo ystyried dull cymesur a thryloyw o hysbysu'r Senedd am bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Yn ei ymateb ym mis Mawrth 2022[84], dywedodd y Prif Weinidog y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod pa wybodaeth y gellid ei darparu i'r Senedd gyda chymheiriaid yn llywodraethau eraill y DU ac y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Chlercod Pwyllgorau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y trafodaethau hynny. Ni chynhaliwyd yr adolygiad eto.

**103.** Fel y nodir ym mhennod 3 o'r adroddiad hwn, mae tystiolaeth hefyd yn amlygu diffyg tryloywder strwythurau rhynglywodraethol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

## Ein barn ni

**104.** Mae tryloywder y materion a drafodwyd a'r penderfyniadau a wneir o fewn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE yn wael a dylid ei wella. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y pŵer ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd ynddynt, fel yr amlygwn yn yr adroddiad hwn.

[78] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [37], 26 Mehefin 2023
[79] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [26], 26 Mehefin 2023
[80] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [18], 26 Mehefin 2023
[81] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [63], 19 Mehefin 2023
[82] Yr Athro Phinnemore a Dr Whitten, Tystiolaeth ysgrifenedig
[83] Llythyr gan Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r Prif Weinidog, 15 Chwefror 2022
[84] Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Mawrth 2023

**105.** Er bod agendâu rhai cyfarfodydd wedi'u cyhoeddi hyd at bythefnos ymlaen llaw, nodwn fod eraill wedi'u cyhoeddi ddeuddydd yn unig cyn cynnal cyfarfodydd. Mewn rhai achosion, gall gymryd misoedd lawer i gofnodion, hyd yn oed pan fyddant yn fanwl, ymddangos ac erbyn hynny, mae’n bosibl bod digwyddiadau wedi dargyfeirio’r penderfyniadau a wnaed.

**106.** Rydym hefyd yn nodi, yn ei Adroddiad ar Weithredu’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, fod Pwyllgor Senedd Ewrop ar Faterion Tramor a Masnach Ryngwladol yn galw ar y Comisiwn Ewropeaidd i roi gwybodaeth lawn i’r senedd sy’n ymwneud â gweithredu’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a hynny ar unwaith, er mwyn sicrhau gwaith craffu digonol.[85]

**Casgliad 9.** Dylai Llywodraeth y DU a Chomisiwn yr UE ymdrechu i gyhoeddi a hysbysebu agendâu cyfarfodydd yn gyson o leiaf bythefnos ymlaen llaw a chyhoeddi cymaint o wybodaeth â phosibl mewn cofnodion a dogfennau cyfarfodydd o fewn amserlen mor fyr â phosibl ar ôl y cyfarfodydd, yn ddelfrydol fis ar ôl i’r cyfarfodydd fynd rhagddynt. Mae hysbysiad gwell o benderfyniadau a wneir rhwng cyfarfodydd hefyd yn hanfodol i wella tryloywder.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo tryloywder yng Nghymru drwy hysbysu’r Senedd, fel mater o drefn, o’r cyfarfodydd llywodraethu a fynychwyd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfarfodydd hyn a dilyn y cyfarfodydd hyn pan fo’n bosibl am y canlyniadau a’r goblygiadau i Gymru. Byddwn yn mynd ar drywydd y cynnig blaenorol a wnaed gan y Prif Weinidog i swyddogion drafod sut y gellid cyflawni hyn.

**107.** Dylid gwella tryloywder trafodaethau yn y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a’r UE, gyda gwybodaeth fanylach yn cael ei rhoi yn y Communiqués a mwy o fanylion yn cael eu rhoi gan Lywodraeth Cymru i’r Senedd ar ganlyniad y cyfarfodydd hyn. Rydym yn nodi nad yw’r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a’r UE yn ymddangos ar dudalennau gwe cysylltiadau rhynglywodraethol y DU, gan ei gwneud yn anoddach i randdeiliaid ddod o hyd i Communiqués ac agendâu.

[85] Senedd Ewrop, y Pwyllgor ar Faterion Tramor a’r Pwyllgor ar Fasnach Ryngwladol, Report on the implementation of the EU-UK Trade and Cooperation Agreement, Motion for a European Parliament Resolution (Saesneg yn unig), 3.11.23 (2022/2188(INI))

**108.** Rydym yn bwriadu ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar y mater hwn, ond yn ystyried y dylai Llywodraeth Cymru wneud sylwadau ar y mater ymarferol iawn hwn ei hun.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud sylwadau i Lywodraeth y DU yn ceisio gwelliannau i'w thudalennau gwe ar gysylltiadau rhynglywodraethol i sicrhau bod yr holl agendâu a Communiques yn hygyrch ar gyfer pob cyfarfod Grŵp Rhyngweinidogol a gynhaliwyd hyd yn hyn a bod diweddariadau yn y dyfodol yn cael eu cynnal mewn modd amserol.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyhoeddi a rhannu cymaint o wybodaeth â phosibl â'r Senedd ar y materion a drafodwyd mewn cyfarfodydd Grŵp Rhyngweinidogol a chanlyniad y trafodaethau. Dylai gyflwyno sylwadau i'r llywodraeth arall i sicrhau bod Communiques a gyhoeddir yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i randdeiliaid a seneddwyr am ganlyniad cyfarfodydd.

**Argymhelliad 17.** O ystyried pwysigrwydd strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE a'r angen am graffu seneddol gwell, mae'n ddyletswydd ar seneddau a deddfwrfeydd yn y DU eu hunain i wella'r oruchwyliaeth o'r strwythurau hyn a chydweithio'n well i wella tryloywder a dwyn llywodraethau i gyfrif. Dylai pwyllgorau seneddol y DU sy'n gweithio ar y materion hyn geisio cydweithio'n agosach drwy ymgysylltu'n uniongyrchol a thrwy'r Fforwm Rhyngseneddol. Fel y nodir yng nghasgliad 1, byddwn yn ymgysylltu â'n chwaer-bwyllgorau i ystyried sut y gellid cyflawni hyn.

# 6. Ymgysylltu

## Cyfleoedd i'r Senedd

### Esblygiad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol rhwng y DU a'r UE

**109.** Nododd Dr Fowler fod arwyddion bod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn datblygu'n fforwm defnyddiol ar gyfer ymgysylltu rhwng y DU a'r UE, a chroesawodd yr arloesedd yn ei arferion gwaith[86]. Yn ogystal â bod yn fforwm defnyddiol ar gyfer meithrin perthnasoedd rhyngbersonol, awgrymodd Dr Fowler y gellid defnyddio'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol i brofi syniadau a dod o hyd i dir cyffredin ar gyfer meysydd cydweithredu yn y dyfodol, ac i archwilio pa atebion i faterion DU a'r UE a allai fod yn wleidyddol ddichonadwy.[87]

**110.** Fodd bynnag, awgrymodd Dr Fowler nad yw'n glir sut y mae'r gwaith craffu ar gyrff y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a wneir gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn cael ei fwydo'n ôl i'r ecosystem craffu ehangach ar faterion yr UE yn San Steffan.[88] Amlygodd fod etholiadau Senedd Ewrop a'r DU yn debygol o amharu ar fomentwm y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn ystod y 12 mis nesaf.[89]

**111.** Yn ein cyflwyniad ysgrifenedig i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, gwnaethom awgrymu bod statws sylwedydd ar gyfer y deddfwrfeydd datganoledig yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn anfoddhaol, ac y dylid caniatáu iddynt gymryd rhan yn fwy gweithredol. Ategwyd hyn hefyd gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd yn ei ymateb i'r un ymchwiliad.[90]

[86] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [11], 26 Mehefin 2023
[87] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [6], 26 Mehefin 2023
[88] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [15], 26 Mehefin 2023
[89] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [9], 26 Mehefin 2023
[90] Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon, Hydref 2022

**112.** Roedd Charles Whitmore,[91] Tom Jones[92] a Tanja Buzek, Cadeirydd Grŵp Cynghori Domestig yr UE,[93] yn galw am ymgysylltu pellach rhwng y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a chynrychiolwyr cymdeithas sifil y DU a'r UE.

**113.** Dywedodd Tom Jones wrthym y bu rhywfaint o ymgysylltu gan Gadeirydd Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU, Syr Oliver Heald, ag aelodau Grwpiau Cynghori Domestig y DU a bod hyn i'w groesawu.[94]

**114.** Mewn perthynas â Chymru, dywedodd Charles Whitmore fod angen cyd-drefnu yn well yng Nghymru ynghylch y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ac am well cydgysylltu ar draws yr holl wahanol weithredwyr yng Nghymru sy'n ymwneud â strwythurau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[95] Nododd, er ei bod yn anodd rhagweld llwybr at rôl fwy gweithredol yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a chyrff eraill o dan Lywodraeth bresennol y DU, y gellid gwneud llawer mwy o ran cydgysylltu, ymgynghori, cefnogi a rhannu gwybodaeth yng Nghymru yn y cyfnod cyn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.[96] Argymhellodd hefyd y dylid bod â phroses dryloyw y gall Cymru ei defnyddio i gyfrannu at agendâu Cynulliad Partneriaeth Seneddol perthnasol ac agendâu cyrff eraill y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ymlaen llaw.[97]

**115.** Mae Aelodau o'r Senedd sy'n mynychu ail a thrydydd cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol wedi cyhoeddi adroddiadau sy'n ceisio tynnu sylw Pwyllgorau eraill y Senedd, Aelodau o'r Senedd a chymdeithas sifil yng Nghymru at faterion allweddol o bwys i Gymru a drafodwyd yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.[98] Mae'r adroddiadau'n cydnabod bod angen gwneud mwy i ymgysylltu â chymdeithas sifil yng Nghymru cyn cyfarfodydd Cynulliad Partneriaeth Seneddol er mwyn ceisio dylanwadu ar yr agenda a chodi materion sydd o bwys i Gymru.

[91] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [28], 26 Mehefin 2023
[92] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [25], 26 Mehefin 2023
[93] Tanja Buzek, Tystiolaeth ysgrifenedig
[94] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [25], 19 Mehefin 2023
[95] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [29], 26 Mehefin 2023
[96] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [30], 26 Mehefin 2023
[97] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig
[98] Mae'r adroddiadau yma ar gael ar wefan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**116.** Croesawodd Grŵp Cyswllt rhwng Pwyllgor y Rhanbarthau a'r DU y camau sydd wedi'u cymryd i wahodd Pwyllgor y Rhanbarthau i gyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol fel sylwedyddion, ac am gydnabyddiaeth o rôl Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol yr UE gan ddirprwyaeth Senedd Ewrop i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.[99]

**117.** Ym Mrwsel, fe'n hysbyswyd bod cefnogaeth eang i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol a'i waith. Pwysleisiwyd hefyd fod angen i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol barhau i esblygu, gwneud yn fawr o'r pwerau a roddir iddo yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a bod yn gorff ystyrlon. Awgrymwyd hefyd bod angen i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ganolbwyntio ar weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a rhwystrau i'w gweithredu'n llawn, yn ogystal â meysydd diddordeb ehangach y tu allan i gwmpas y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[100]

**118.** Yn ei Adroddiad ar weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae Pwyllgor Senedd Ewrop ar Faterion Tramor a Masnach Ryngwladol yn galw i diriogaethau datganoledig Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru ymwneud yn fwy â'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol rhwng yr UE a'r DU.[101]

**119.** Awgrymwyd hefyd y posibilrwydd o ddatblygu is-strwythurau a allai ganiatáu ar gyfer trafodaeth fanylach ac ymgysylltu pellach, dyfnach â deddfwrfeydd is-wladwriaeth, Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol a chymdeithas sifil.

### Ymgysylltu â sefydliadau'r UE

**120.** Yn ystod ein hymweliad â Brwsel, pwysleisiwyd pwysigrwydd ymgysylltu'n bersonol â sefydliadau'r UE, Aelod-wladwriaethau, rhanbarthau a rhanddeiliaid yn yr UE.

[99] Llywydd Loïg Chesnais-Girard. Cadeirydd Grŵp Cyswllt rhwng Pwyllgor y Rhanbarthau a'r DU, Tystiolaeth ysgrifenedig
[100] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023
[101] Senedd Ewrop, y Pwyllgor ar Faterion Tramor a'r Pwyllgor ar Fasnach Ryngwladol, Report on the implementation of the EU-UK Trade and Cooperation Agreement, Motion for a European Parliament Resolution (Saesneg yn unig), 3.11.23 (2022/2188(INI))

**121.** Pwysleisiodd tystion a rhanddeiliaid ym Mrwsel hefyd y bydd datblygiadau polisi a deddfwriaethol yr UE yn parhau i gael effaith alldiriogaethol ar Gymru oherwydd pwysigrwydd marchnad yr UE i Gymru.[102]

**122.** Dywedodd yr Athro Usherwood fod bod yn drydedd gwlad ac yn Aelod-wladwriaeth yn golygu bod angen i sefydliadau'r DU gynyddu gallu ym Mrwsel i ddylanwadu, gan nodi:

> *"…Norway shows the need, actually, to increase your capacity locally and in Brussels, those are the kinds of things that you could do that would really help to improve the oversight and, by extension, the opportunity to inform and influence what was going on, rather than reading about it in a circular from the Official Journal of the European Union."*[103]

**123.** Roedd yr Athro Barnard hefyd yn argymell yr angen i ymgysylltu'n bersonol ym Mrwsel, gan nodi:

> *"I think you need to brush up your travel on the Eurostar, get out to Brussels and really put some effort into making a difference by meeting the relevant people from the European Parliament, who I think are sympathetic and are helpful to Wales, but also the European Commission, if they will see you."*[104]

**124.** Yn ei ymateb i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, daeth Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon y Senedd i'r casgliad hefyd ei fod yn parhau i gredu ym mhwysigrwydd cyswllt uniongyrchol rhwng y llywodraeth ddatganoledig a deddfwrfeydd â sefydliadau'r UE.[105]

---

[102] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023
[103] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [65], 19 Mehefin 2023
[104] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [90], 19 Mehefin 2023
[105] Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon, Hydref 2022

## Ein barn ni

**125.** Dylid croesawu esblygiad a datblygiad parhaus y Cynulliad Partneriaeth Seneddol am fod ganddo rôl hanfodol fel yr unig ddull ar gyfer cyd-oruchwylio gan ddeddfwrfeydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Fel y nodwyd yn y dystiolaeth a gawsom, mae wedi dod yn llwybr pwysig ar gyfer datblygu atebion gwleidyddol, dealltwriaeth gyffredin ac ymgysylltu dinesig a deddfwriaethol ehangach rhwng y DU a'r UE. Mae eisoes wedi cael effaith bwysig ac mae ganddo gyfleoedd i esblygu a thyfu ymhellach. Dylid croesawu hefyd y rôl gynyddol i sefydliadau datganoledig, LRAs yn yr UE a chymdeithas sifil yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol. ond gellid ei chryfhau ymhellach, gan y byddai hyn hefyd yn cryfhau llais y CPA ymhellach.

**126.** Roedd ein cyfarfodydd ym Mrwsel a'r dystiolaeth a gawsom yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu'n bersonol â sefydliadau yn yr UE er mwyn meithrin dealltwriaeth, gwybodaeth a chysylltiadau cadarnhaol rhwng Aelodau'r Senedd, Cymru a'r UE.

**Casgliad 10.** Dylai'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol barhau i esblygu a datblygu ei rôl wrth fonitro a chanfod atebion i weithrediad ymarferol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac ystyried y posibilrwydd o ddatblygu is-strwythurau neu ymgysylltu parhaus rhwng cyfarfodydd. Byddai hyn yn adlewyrchu'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor Partneriaeth wneud penderfyniadau ysgrifenedig rhwng cyfarfodydd. Rydym yn gobeithio y bydd ymgysylltiad y cenhedloedd datganoledig â gwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn parhau i gael ei gryfhau.

**Argymhelliad 18.** Dylai Comisiwn y Senedd a'r Bwrdd Taliadau barhau i roi cymorth priodol a digonol i Aelodau'r Senedd a Phwyllgorau'r Senedd i'w galluogi i ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau a rhanddeiliaid yr UE er mwyn sicrhau bod materion allweddol o bwys i Gymru yn cael eu codi'n uniongyrchol ym Mrwsel.

## Cyfleoedd i gymdeithas sifil

**127.** Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU a'r UE sefydlu neu ddefnyddio Grwpiau Cynghori Domestig sy'n cynnwys grwpiau busnes, undebau llafur a sefydliadau anllywodraethol eraill. Cyngor

Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yw'r unig sefydliad sy'n cynrychioli buddiannau Cymru ar Grwpiau Cynghori Domestig y DU yn unig.

**128.** Cawsom dystiolaeth gan gynrychiolwyr WCVA ar y Grwpiau Cynghori Domestig, Tom Jones a Charles Whitmore, yn ogystal â chan Gadeirydd Grwpiau Cynghori Domestig yr UE, Tanja Buzek, a chyfarfod â swyddogion o Bwyllgor Dilynol y DU Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop.

**129.** Yn ogystal â'r Grwpiau Cynghori Domestig, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu ar gyfer sefydlu Fforwm Cymdeithas Sifil ehangach ac i gyfarfod yn flynyddol. Mae ei gylch gwaith yn cwmpasu Rhan 2 o'r cytundeb yn unig (ar fasnach, ynni, diogelwch hedfan, trafnidiaeth awyr a ffyrdd, cydgysylltu nawdd cymdeithasol, fisas ar gyfer ymweliadau tymor byr a physgodfeydd).

## Gweithrediad Grwpiau Cynghori Domestig y DU

**130.** Dywedodd Tom Jones a Charles Whitmore fod rhai gwelliannau wedi bod yng ngweithrediad ymarferol y grŵp ers ei sefydlu.[106] Roeddent yn croesawu'r cytundeb diweddar i sefydlu is-grwpiau yn y Grwpiau Cynghori Domestig, gan gynnwys un ar wledydd a rhanbarthau. Fodd bynnag, amlinellwyd nifer o heriau sy'n parhau.

**131.** Dywedodd Tom Jones a Charles Whitmore wrthym nad ydynt yn derbyn unrhyw arian nac adnoddau i gymryd rhan yng Ngrwpiau Cynghori Domestig y DU, tra bod aelodau Grwpiau Cynghori Domestig yr UE yn ei dderbyn.[107] Dywedodd Charles Whitmore hefyd fod ei swydd yn cael ei hariannu ar hyn o bryd gan grant gan y Sefydliad Addysg Gyfreithiol a, phan ddaw hyn i ben, nid yw'n sicr a fydd WCVA yn gallu parhau i gymryd rhan a chynrychioli Cymru.[108]

**132.** Er bod y ddau yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yng Ngrwpiau Cynghori Domestig y DU, pwysleisiwyd hefyd ei fod wedi bod yn gromlin ddysgu, a bod eu hadnoddau cyfyngedig yn golygu eu bod yn ceisio cydbwyso dau fater yn barhaus: y gwaith gwirioneddol i ddeall a bwydo i mewn i'r Cytundeb Masnach a

[106] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [57 i 58], 26 Mehefin 2023
[107] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [39 a 73], 29 Mehefin 2023
[108] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [73], 19 Mehefin 2023

Chydweithredu gyda blaenoriaethau domestig, a'r angen i barhau i chwilio am gyllid i barhau â'u gwaith.[109]

**133.** Nododd Charles Whitmore hefyd mai dim ond oherwydd lwfans teithio annisgwyl a ddarparwyd gan Gyngres yr Undebau Llafur y gallent fynychu'r cyfarfod cyntaf y Fforwm Cymdeithas Sifil ym Mrwsel. Ni fyddai unrhyw gyfranogiad personol o Gymru wedi bod fel arall.

**134.** Galwodd Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, yn ei adroddiad ar y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol, ar Lywodraeth y DU i drafod mater cyllid gyda chynrychiolwyr cymdeithas sifil y DU fel blaenoriaeth cyn ail gyfarfod y Fforwm Cymdeithas Sifil, gyda'r nod o sicrhau bod cynrychiolwyr y DU yn gallu cymryd rhan ar sail gyfatebol i'w cymheiriaid yn yr UE.[110]

**135.** Galwodd Charles Whitmore am ddull mwy pwrpasol i'r Grwpiau Cynghori Domestig gan Lywodraeth y DU.[111] Galwodd am gynllun gwaith ar gyfer y Grwpiau Cynghori Domestig gydag eitemau sylweddol a fyddai'n caniatáu i'r cynrychiolwyr ar y grŵp ymgynghori â grwpiau cymdeithas sifil eraill ac i adrodd yn ôl ar faterion ac atebion ar weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i Lywodraeth y DU.

## Gwersi o weithrediad Grwpiau Cynghori Domestig yr UE

**136.** Amlygodd Tanja Buzek fod Grwpiau Cynghori Domestig yr UE wedi datblygu traciwr materion DU-UE lle gall ei aelodau dynnu sylw'r Comisiwn Ewropeaidd a chyrff eraill yr UE at heriau ymarferol a materion gweithredu.[112] Mae Grwpiau Cynghori Domestig yr UE yn canolbwyntio'n llawn ar weithrediad llawn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a gwneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer cydweithredu rheoleiddiol a chydweithrediad arall y darperir ar ei gyfer yn y cytundeb.

[109] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [41], 19 Mehefin 2023
[110] Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, 4ed adroddiad Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, Ebrill 2023
[111] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig
[112] Tanja Buzek, Tystiolaeth ysgrifenedig

**137.** Fe'n hysbyswyd bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi croesawu'r dull ymarferol a mwy manwl hwn a bod y dystiolaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio i lywio trafodaeth yn strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**138.** Er bod Grwpiau Cynghori Domestig yr UE wedi derbyn adnoddau i'w croesawu i alluogi Aelodau i deithio i Frwsel ar gyfer cyfarfodydd, mae wedi'i gyfyngu i dri o bobl, ac ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm Cymdeithas Sifil, gall uchafswm o chwech o bobl fynychu'n bersonol.

**139.** Pwysleisiodd Tanja Buzek fod cydweithrediad rhwng Grwpiau Cynghori Domestig mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin yn allweddol, gan nodi mai cydweithio rhwng Grwpiau Cynghori Domestig yw curiad calon pob cytundeb masnach.[113]

## Cydweithrediad cymdeithas sifil rhwng y DU a'r UE

**140.** Tynnodd Cillian Lohan, Cadeirydd Pwyllgor Dilynol Economaidd a Chymdeithasol Ewrop y DU, ein sylw at Adroddiad Gwybodaeth y Pwyllgor hwnnw[114] ar weithredu Pwyllgor Dilynol yr UE a'r DU. Rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor hwn ac Aelodau eraill o'r Senedd dystiolaeth i lywio'r Adroddiad Gwybodaeth, sy'n cynnwys adrannau ar ei ganfyddiadau yng Nghymru.

**141.** Daeth yr Adroddiad Gwybodaeth i'r casgliad bod awydd llethol i gryfhau cydweithrediad cymdeithas sifil rhwng y DU a'r UE ac oni bai bod cysylltiadau cymdeithas sifil yn cael eu meithrin a'u cynnal trwy strwythurau ffurfiol, byddant yn gwywo.[115] Nododd hefyd y bydd buddsoddi yn y cysylltiadau hyn yn gwella potensial y Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**142.** Rydym yn nodi bod adroddiad Pwyllgor Senedd Ewrop ar Faterion Tramor a Masnach Ryngwladol ar weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltiad cymdeithas sifil y DU a'r UE â strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[116]

---

[113] Tanja Buzek, Tystiolaeth ysgrifenedig
[114] Cillian Lohan, Tystiolaeth ysgrifenedig
[115] Cillian Lohan, Tystiolaeth ysgrifenedig, Adroddiad Gwybodaeth
[116] Senedd Ewrop, y Pwyllgor ar Faterion Tramor a'r Pwyllgor ar Fasnach Ryngwladol, Report on the implementation of the EU-UK Trade and Cooperation Agreement, Motion for a European Parliament Resolution (Saesneg yn unig), 3.11.23 (2022/2188(INI))

**143.** Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifanc yn arbennig yn yr Adroddiad Gwybodaeth, a chan randdeiliaid eraill ym Mrwsel.

## Gweithrediad y Fforwm Cymdeithas Sifil

**144.** Roedd Charles Whitmore[117] a Tanja Buzek[118] yn tynnu sylw at wersi y gellid eu dysgu o gyfarfod cyntaf y Fforwm Cymdeithas Sifil ym Mrwsel yn hydref 2022.

**145.** Galwodd Charles Whitmore am fwy o eglurder a mwy o ymwybyddiaeth ymhlith cymdeithas sifil yn y DU am rôl a diben y Fforwm Cymdeithas Sifil. Dywedodd fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi mabwysiadu agwedd gul tuag at gylch gwaith y Fforwm Cymdeithas Sifil yn y cyfarfod cyntaf a arweiniodd at drafodaeth fasnachol dechnegol, yn hytrach na thrafodaeth strategol a chynhwysol lefel uchel ar gydweithredu.[119]

**146.** Ym Mrwsel, fe'n hysbyswyd o bwysigrwydd sicrhau bod y Fforwm Cymdeithas Sifil yn caniatáu ar gyfer deialog a sgyrsiau cyfranogol rhwng cymdeithas sifil, sefydliadau yn hytrach na chyfnewid barn ffurfiol ar bynciau technegol.[120]

**147.** Amlygwyd hyn hefyd gan Tanja Buzek, a alwodd ar y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU i ganiatáu ar gyfer rhyngweithio cymdeithas sifil mwy deinamig gyda'r pleidiau ac ymhlith ei gilydd yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cymdeithas Sifil yn Llundain.[121]

## Ymgysylltu â strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE

**148.** Fel yr amlinellwyd uchod, roedd Tom Jones[122] a Charles Whitmore[123] yn galw am well cydgysylltu rhwng y rheini yng Nghymru sy'n ymwneud ag elfennau gwahanol o lywodraethu'r DU a'r UE, h.y. Llywodraeth Cymru, y Senedd a chymdeithas sifil, sef Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru a CGGC.

[117] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig
[118] Tanja Buzek, Tystiolaeth ysgrifenedig
[119] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig
[120] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023
[121] Tanja Buzek, Tystiolaeth ysgrifenedig
[122] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [37], 26 Mehefin 2023
[123] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [42], 26 Mehefin 2023

**149.** Cyfeiriodd Tom Jones a Charles Whitmore hefyd at Grŵp Cynghori UE blaenorol Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd yn ystod y trafodaethau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, fel model posibl. Mynegwyd siom ganddynt na chafodd ei ailsefydlu yn ystod y Chweched Senedd.[124]

**150.** Dywedodd Charles Whitmore ei fod yn teimlo bod y Grŵp wedi rhoi'r gorau iddi ar yr amser anghywir[125] a galwodd y ddau am sefydlu corff tebyg i rannu gwybodaeth a chydgysylltu ymdrechion ymgysylltu o Gymru.[126]

**151.** Mewn perthynas â'r Senedd, dywedodd Charles Whitmore y gall hefyd chwarae rhan hanfodol wrth barhau i gymryd rhan, annog a chefnogi deialog o fewn Cymru a chydgysylltu rhwng sefydliadau a sectorau.[127]

### Gwersi o Ogledd Iwerddon ar ymgysylltu â rhanddeiliaid

**152.** Amlygodd Dr Whitten fod tystiolaeth gynyddol bod atebion o'r gwaelod i fyny a materion a nodwyd gan randdeiliaid yng Ngogledd Iwerddon wedi arwain at y DU a'r UE yn mabwysiadu'r atebion hyn yn Fframwaith Windsor ac mewn trafodaethau ehangach.[128]

**153.** Gan gydnabod bod Gogledd Iwerddon mewn sefyllfa unigryw, nododd Dr Whitten ei fod yn dangos bod gobaith y gall atebion o'r gwaelod i fyny ddatrys anghytundebau rhwng y DU a'r UE.[129] Amlygodd yr Athro Phinnemore a Dr Whitten hefyd fod cefnogaeth draws-gymunedol a sectoraidd barhaus yng Ngogledd Iwerddon i randdeiliaid ymgysylltu'n briodol â chysylltiadau rhwng y DU a'r UE.[130]

## Ein barn ni

**154.** Mae cymdeithas sifil yn y DU a'r UE yn chwarae rhan hanfodol bwysig yn y gwaith o lywodraethu a gweithredu cytundebau rhwng y DU a'r UE. Dim ond

[124] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [37 a 42], 26 Mehefin 2023
[125] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [33], 26 Mehefin 2023
[126] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig
[127] Charles Whitmore, Tystiolaeth ysgrifenedig
[128] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [153], 26 Mehefin 2023
[129] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [153], 26 Mehefin 2023
[130] Yr Athro Phinnemore a Dr Whitten, Tystiolaeth ysgrifenedig

gan weithredwyr cymdeithas sifil sy'n profi realiti'r cytundebau ar lawr gwlad y gall tystiolaeth ar y rhwystrau ymarferol, yr atebion a'r cyfleoedd ddod.

**155.** Gellir a dylid dysgu gwersi pwysig o brofiad Gogledd Iwerddon lle mae atebion o'r gwaelod i fyny wedi datrys problemau anodd rhwng yr UE a'r DU. Mae'n amlwg bod awydd cryf ar y ddwy ochr am fwy o gydweithrediad cymdeithas sifil ond bod angen rhoi adnoddau a chefnogaeth briodol i'r gwaith pwysig hwn.

**156.** Yng Nghymru, mae awydd clir ar gyfer cydgysylltiad gwell a rhannu gwybodaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y Senedd, sefydliadau cymdeithas sifil a gweithredwyr eraill sy'n ymgysylltu â gwaith cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Erbyn hyn, mae'r mecanweithiau llywodraethu ar waith ac mae rôl gweithredwyr gwahanol ynddynt yn fwy sicr a diffiniedig. Gallai grŵp cynghori newydd fod â rôl bwysig wrth wneud y mwyaf o gyfleoedd i Gymru lywio'r agenda.

**157.** Mae rôl bwysig i'r Senedd wrth ymgysylltu â chymdeithas sifil Cymru ar faterion rhwng y DU a'r UE. Yn ogystal â chefnogi pwyllgorau'r Senedd, cynrychiolwyr y Senedd ar gyrff y DU a'r UE a gwaith craffu yn ehangach, gallai'r gwaith hwn weithredu fel canolbwynt ar gyfer y trafodaethau pwysig hyn yng Nghymru. Mae'n allweddol bod gwaith y Senedd yn y maes hwn yn adlewyrchu blaenoriaethau dinasyddion a chymdeithas sifil, yn enwedig ar adegau pan fo adnoddau'n gyfyngedig.

**158.** Mae rôl y Grwpiau Cynghori Domestig dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn arbennig o bwysig gan fod ehangder unigryw eu cylch gwaith yn arwydd. Mae gwaith Grwpiau Cynghori Domestig yr UE ar draciwr materion ymarferol yn enghraifft wych o'r adnodd arbenigol y gall Grwpiau Cynghori Domestig ei ddarparu.

**159.** Rydym yn cymeradwyo gwaith Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit a WCVA wrth geisio sicrhau bod llais unigryw Cymru yn cael ei glywed yng Ngrwpiau Cynghori Domestig y DU. Rydym yn cydnabod bod y broses o sefydlu'r Grwpiau Cynghori Domestig yn newydd i'r DU a bod cefnogaeth i Grwpiau Cynghori Domestig y DU, ei weithdrefnau a'i broses yn parhau i esblygu wrth i wersi gael eu dysgu o ddyddiau cynnar ei weithrediad. Rydym yn croesawu datblygiad yr is-grwpiau yng Ngrwpiau Cynghori Domestig y DU, yn enwedig yr is-grŵp ar wledydd a rhanbarthau.

**160.** Mae tystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod gan Lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig, os ydynt yn ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon, lawer i'w ennill o weithio gyda Grwpiau Cynghori Domestig y DU a'i aelodau.

**161.** Rydym yn nodi safbwyntiau'r DU a'r UE ar yr angen i wella gweithrediad y Fforwm Cymdeithas Sifil er mwyn caniatáu mwy o ddeialog ac ymgysylltu cyfranogol ar yr ystod lawn o feysydd sy'n bwysig i gydweithredu rhwng y DU a'r UE a gobeithiwn y gwnaed gwelliannau yn ail gyfarfod y Fforwm ar 7 Tachwedd 2023.

**Casgliad 11.** Mae ymgysylltiad a chydweithrediad cymdeithas sifil yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus trefniadau'r DU a'r UE a'r berthynas ehangach. Dylai'r strwythurau ar gyfer ymgysylltiad cymdeithas sifil yn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE gael adnoddau a chymorth priodol. Dylid hefyd ystyried cefnogi cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â chymdeithas sifil y DU a'r UE y tu allan i'r strwythurau hyn.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnull grŵp cynghori newydd ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE i rannu gwybodaeth, tystiolaeth a mewnbwn cydgysylltu i grwpiau a strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE. O gofio rôl y Senedd yn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE, byddai'n briodol i Aelodau o'r Senedd sy'n cynrychioli'r Senedd ar y grwpiau hyn gael gwahoddiad i gymryd rhan.

**Argymhelliad 20.** Dylai Comisiwn y Senedd hwyluso ymgysylltiad rheolaidd â sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru ar faterion y DU a'r UE. Er enghraifft, mewn cysylltiad â chyfarfodydd rheolaidd sy'n cynnwys Aelodau o'r Senedd ar rwydweithiau allanol perthnasol, cyrff y DU a'r UE, cadeiryddion pwyllgorau perthnasol a sefydliadau cymdeithas sifil sy'n ymgysylltu â gwaith ar y materion hyn.

**Casgliad 12.** Gan gydnabod y cyfyngiadau presennol ar adnoddau sy'n wynebu llywodraethau'r DU, nid ydym yn ystyried ei bod yn gynaliadwy i gynnwys llais Cymru yng Ngrwpiau Cynghori Domestig y DU fod yn dibynnu'n llwyr ar gyllid grant gan sefydliadau allanol.

**162.** Mae'n siomedig bod Llywodraeth y DU, yn ei hymateb i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, wedi datgan nad oedd unrhyw gyllid wedi'i gynllunio

ar gyfer teithio na llety aelodau Grwpiau Cynghori Domestig.[131] O ystyried manteision posibl ymgysylltu mwy ystyrlon â Grwpiau Cynghori Domestig y DU a rhwng Grwpiau Cynghori Domestig y DU a Grwpiau Cynghori Domestig yr UE, rydym yn annog Llywodraeth y DU i ailystyried y safbwynt hwn.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth y DU wneud sylwadau i Lywodraeth y DU yn ceisio sicrwydd bod cymorth ariannol ac adnoddau priodol ar gael i sefydliadau gymryd rhan yng Ngrŵp Cynghori Domestig a Fforwm Cymdeithas Sifil y DU. Yn niffyg cymorth uniongyrchol gan Lywodraeth y DU, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i sefydliadau Cymreig i sicrhau parhad llais Cymreig unigryw yn y grwpiau hyn.

[131] Ymateb Llywodraeth y DU i Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi 4$^{ed}$ Adroddiad Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, Mehefin 2023

# 7. Ymgysylltu yn y dyfodol

## Gweithredu cytundebau rhwng y DU a'r UE

**163.** Clywodd y Pwyllgor fod gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llawn ac yn briodol yn allweddol er mwyn cryfhau'r berthynas ac o ran cydweithredu yn y dyfodol.[132]

**164.** Clywodd y Pwyllgor y farn mai dim ond 10% o'r Cytundeb oedd yn llwyr weithredol mewn gwirionedd a bod llawer mwy i'w wneud er mwyn gwneud defnydd llawn o'i ddarpariaethau.[133]

**165.** Clywodd y Pwyllgor am bwysigrwydd defnyddio'r cytundebau presennol fel sylfaen ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol. Fe'n cynghorwyd hefyd y dylai'r DU geisio gwneud hyn yn gyntaf cyn edrych ar feysydd cydweithredu y tu allan i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac y bydd yr UE yn gofyn a yw ein trefniadau ein hun wedi eu gwneud cyn ystyried datblygu'r berthynas trwy gyflwyno elfennau newydd.[134]

**166.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor y dylai'r DU, fel trydedd wlad, geisio sicrhau ei bod yn rhoi ei chytundebau presennol ar waith yn llawn a'i bod yn defnyddio'r ewyllys da a'r ymddiriedaeth a ddaw yn sgil hynny i gryfhau'r cydweithredu.

**167.** Adleisir hyn yn Adroddiad Gwybodaeth y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, sy'n nodi'r canlynol:

> *"Despite its limitations, implementation of the "zero tariff, zero quota" EU-UK Trade and Cooperation Agreement (TCA) and the EU-UK WA still offers the best available avenue to a mutually beneficial, prosperous, and secure future for both the UK and the EU. However, this very much depends on developing a deeply constructive and cooperative EU-UK relationship, built*

[132] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023
[133] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023
[134] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023

> *on the secure foundations of the TCA and EU-UK WA and especially the former's level-playing field (LPF) provisions).*[135]

## Adolygiad gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu

**168.** Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu ar gyfer adolygiadau lluosog o'i darpariaethau, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae cyfyngiad amser hefyd ar rannau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a rhaid eu haildrafod yn rheolaidd.

**169.** Rhaid cynnal adolygiad gweithredu bob pum mlynedd cyn mis Mai 2026. O'r herwydd, mae'n debygol y bydd y broses hon yn rhedeg drwy gydol 2025, wrth i'r terfyn amser agosáu.

**170.** Darparodd tystion nodyn o rybudd ynghylch cwmpas tebygol yr adolygiad a'r posibilrwydd o newidiadau helaeth i'r darpariaethau llywodraethu. Fodd bynnag, amlinellodd yr Athro Lock fod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi'i ddrafftio'n fras er mwyn caniatáu cwmpas ar gyfer cynnwys meysydd pellach yn y cytundeb os yw'r hwyliau'n dda rhwng y ddwy ochr.[136]

**171.** Tynnodd yr Athro Lock sylw at y ffaith bod yr adolygiad, ail-negodi'r cytundeb pysgodfeydd, a phenderfyniadau unochrog eraill y mae angen i'r DU a'r UE eu gwneud, yn gyfle i ysgogi busnesau a rhanddeiliaid Cymru i sicrhau bod materion sydd o bwys i Gymru yn cael eu codi.[137]

**172.** Dywedodd yr Athro Usherwood na ddylai ein Pwyllgor, Llywodraeth Cymru, na'r Senedd aros tan yr adolygiad, gan fod Llywodraeth y DU a'r UE wedi dangos parodrwydd i wneud newidiadau a chytuno ar atebion pam fo angen y tu allan i unrhyw gyfnodau adolygu ffurfiol.[138]

**173.** Ar y cyfan, roedd consensws, er bod y drws yn gilagored ar gyfer cydweithredu pellach, nad mater o ailnegodi fydd yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb yn 2025/26.

---

[135] Cillian Lohan, Tystiolaeth ysgrifenedig, Adroddiad Gwybodaeth
[136] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [170], 26 Mehefin 2023
[137] Yr Athro Lock, Tystiolaeth ysgrifenedig
[138] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [58], 19 Mehefin 2023

**174.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai fod cyfle i chwilio am welliannau yn seiliedig ar feysydd a nodwyd yn y Cytundeb ond na fyddai'r UE yn awyddus i ailnegodi bob pum mlynedd. Roedd consensws y gallai'r DU a'r UE chwilio am sefyllfaoedd lle y mae pawb ar ei ennill o fewn cwmpas y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a allai ganiatáu rhagor o gydweithredu.[139]

**175.** Gwnaeth yr Athro Usherwood,[140], Yr Athro Barnard,[141] Dr Royles,[142] Tom Jones[143] a Charles Whitmore[144] dynnu sylw hefyd at y cyfleoedd i Gymru feithrin perthnasoedd y tu allan i'r strwythurau ffurfiol sy'n llywodraethu cysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

## Ein barn ni

**176.** Rydym yn cytuno bod angen i'r berthynas rhwng y DU a'r UE fod yn sylfaen i weithrediad llawn a phriodol y cytundebau presennol rhwng y DU a'r UE.


**177.** Er bod consensws nad yw adolygiad 2025-26 o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gyfle i ailnegodi ar hyn o bryd, mae'n rhoi cyfle i drafod a myfyrio ar weithrediad y cytundeb ac i ystyried atebion ymarferol i rai o'r problemau llywodraethu a nodir yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru fod yn barod ar gyfer nifer o gerrig milltir allweddol ar gyfer gweithredu ac adolygu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn ystod y Chweched Senedd. Dylai hyn gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid o Gymru mewn trafodaethau am eu goblygiadau. Bydd datblygu safbwyntiau Cymru cyn y cerrig milltir hyn yn hollbwysig, yn enwedig gan y gallai cylch adolygu nesaf y cytundeb ymestyn i 2031 neu y tu hwnt i hynny.


[139] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llywodraethiant y DU a'r UE, Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad, Hydref 2023
[140] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [75], 19 Mehefin 2023
[141] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [90], 19 Mehefin 2023
[142] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [163 a 179], 26 Mehefin 2023
[143] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [26], 26 Mehefin 2023
[144] Y Pwyllgor DCC, Cofnod y Trafodion [98], 26 Mehefin 2023

# Atodiad 1: Ffeithluniau

## Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu



## Y Cytundeb Ymadael



# Atodiad 2: Cylch gwaith

Mae’r cytundebau rhwng y DU a’r UE yn sefydlu strwythurau llywodraethu newydd cymhleth ar gyfer rheoli cysylltiadau a chytundebau rhwng y DU a’r UE ar ôl Brexit. Wrth i’r strwythurau llywodraethu hyn ddechrau gweithredu’n ymarferol, mae problemau a heriau cyffredin wedi dod i’r amlwg i seneddau yn y DU sydd â’r dasg o graffu arnynt.

Mae rôl a safle llywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig yn y strwythurau hyn hefyd yn parhau i fod yn aneglur.

Yn ei dystiolaeth i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ’r Arglwyddi, daeth y Pwyllgor hwn i’r casgliad a ganlyn ar sail y wybodaeth gychwynnol y bu modd ei chasglu:

“The role of the devolved nations in UK-EU structures is not yet clear and the transparency of these structures and the intergovernmental work related to UK-EU relationships needs urgent improvement.”

Mae’r Pwyllgor bellach yn cynnal ymchwiliad byr i ychwanegu at ei ganfyddiadau cychwynnol ac i archwilio ei gasgliadau gydag arbenigwyr, rhanddeiliaid, seneddau, llywodraethau a sefydliadau yng Nghymru, y DU a’r UE.

Yn benodol, bydd yr ymchwiliad yn ystyried y canlynol:

- strwythur sefydliadol a threfniadau ar gyfer llywodraethu cytundebau rhwng y DU a’r UE a sut mae’r rhain wedi datblygu’n ymarferol;
- rôl y llywodraethau datganoledig yn strwythur sefydliadol a threfniadau llywodraethu’r cytundebau rhwng y DU a’r UE eu hunain a threfniadau rhynglywodraethol y DU sydd ar waith i gefnogi gwaith ymgysylltu;
- rôl deddfwrfeydd y DU ac yn enwedig deddfwrfeydd datganoledig o ran goruchwylio’r broses o wneud penderfyniadau a chraffu ar weithrediad y cytundebau;
- rôl cymdeithas sifil yng ngweithrediad y cytundebau ac yn arbennig rôl y Fforwm Cymdeithas Sifil a Grwpiau Cynghori Domestig o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu;

- tryloywder ac atebolrwydd y strwythurau llywodraethu newydd hyn rhwng y DU a'r UE.

# Atodiad 3: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **19 Mehefin 2023** | **Yr Athro Catherine Barnard**, Prifysgol Caergrawnt<br>**Yr Athro Simon Usherwood,** Y Brifysgol Agored |
| **26 Mehefin 2023** | **Charles Whitmore,** Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru<br>**Tom Jones**, cynrychiolydd Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Fforwm Cymdeithas Sifil y DU-UE<br>**Brigid Fowler**, Cymdeithas Hansard |
| **26 Mehefin 2023** | **Yr Athro Tobias Lock,** Prifysgol Genedlaethol Iwerddon<br>**Dr Lisa Whitten**, Prifysgol Queen's Belfast<br>**Dr Elin Royles**, Prifysgol Aberystwyth |

# Atodiad 4: Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Mae’r holl dystiolaeth ysgrifenedig i’w gweld ar wefan y Pwyllgor.

| Enw a Sefydliad |
| --- |
| Yr Athro Tobias Lock, Prifysgol Genedlaethol Iwerddon |
| Dr Lisa Whitten a'r Athro David Phinnemore, Prifysgol Queen's Belfast |
| Charles Whitmore, Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru |
| Dr Elin Royles, Prifysgol Aberystwyth |
| Tanja Buzek, Cadeirydd Grŵp Cynghori Domestig yr UE |
| Cillian Lohan, Cadeirydd Pwyllgor Dilynol Economaidd a Chymdeithasol Ewrop yr UE a’r DU |
| Llywydd Loïg Chesnais-Girard, Cadeirydd Grŵp Cyswllt rhwng Pwyllgor y Rhanbarthau a’r DU |